# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 18 HYDREF 2021 am 1:00 y. p. | MONDAY, 18 OCTOBER, 2021 at 1:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 / Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Gary Pritchard, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021.

**3** **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2020/21** (Tudalennau 9 - 54)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**4** **ENWEBIAD I'R GRWP LLYWIO GWASTRAFF GYDA WRAP CYMRU** (Tudalennau 55 - 60)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**5** **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 61 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Gary Pritchard, Bryan Owen, Alun Roberts, J. Arwel Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol), Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Gwasanaeth (Pobl Hŷn) (IR)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Richard O. Jones, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts a Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Gary Pritchard fel aelod newydd o'r Pwyllgor, ac i Mr Arwel Owen, Pennaeth newydd Gwasanaethau Oedolion y Cyngor.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Gary Pritchard ddiddordeb personol nad oedd yn un rhagfarnllyd mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen oherwydd bod ei ferch yn cael ei chyflogi'n achlysurol gan Môn Actif.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2021/22

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer 2021/22. Mae'r cerdyn sgorio'n darlunio sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol, fel yr amlinellwyd nhw ac y cytunwyd arnynt yn gynharach yn y flwyddyn; dylid ystyried cerdyn sgorio cyntaf y flwyddyn yng nghyd-destun y pwysau ychwanegol sy'n deillio o ymateb y Cyngor i'r pandemig coronafeirws yn ystod Chwarter 1.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol bod 88% o'r dangosyddion Perfformiad Iechyd Corfforaethol sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ar ddiwedd Chwarter 1 (h.y. statws RAG Gwyrdd neu Felyn), fel y manylir arnynt yn adran 3 yr adroddiad, ac roedd 85% o'r dangosyddion Rheoli Perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau (ceir manylion yn adran 4 yr adroddiad). Mae Covid yn parhau i ddylanwadu ar agweddau lle mae perfformiad is na'r targed yn cael ei gofnodi mewn perthynas ag agweddau o'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (archwiliadau hylendid bwyd a gynlluniwyd); Gwasanaethau Oedolion (canran yr oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach); Gwasanaeth Rheoli Gwastraff (canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio) a'r Gwasanaeth Cynllunio (canran yr holl benderfyniadau cynllunio a benderfynwyd ar amser). Yn ogystal, ble cafodd tanberfformiad ei nodi, mae'r mesurau lliniaru a amlinellwyd wedi cael ei rhoi ar waith i gefnogi a gwella perfformiad yn Chwarter 2. Mae dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i berfformio'n dda ac eithrio dangosydd 04b - cyfanswm canran yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, lle mae perfformiad yn 50% yn erbyn targed o 80%. I liniaru'r sefyllfa, gellir adrodd bod 13 o'r 14 cwyn a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod â'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith ac roedd estyniad amser eisoes wedi'i gytuno ar gyfer 5 o'r 7 ymateb hwyr.

Cynhaliwyd gweithdy gydag Aelodau Etholedig ar 13 Gorffennaf, 2021 a chytunwyd y byddai tri dangosydd newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer cerdyn sgorio 2021/22 – boddhad cwsmeriaid gyda system ffôn y Cyngor; rheoli newid hinsawdd a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol –

- Perfformiad Dangosydd 31 - canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, sydd yn Goch, gyda chanran o 64.55% sydd is na'r targed o 70% ar gyfer y chwarter; mae'r perfformiad hwn hefyd yn is na'r perfformiad yn Ch1 yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Cyfeiriwyd hefyd at y gostyngiad yn y tunelli o wastraff gwyrdd a gesglir yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff Gardd y codir tâl amdano ym mis Ebrill 2021. Mynegodd y Pwyllgor beth pryder ynghylch y sefyllfa o ystyried bod cyfraddau ailgylchu Ynys Môn wedi bod yn rhagorol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; roedd aelodau'n awyddus i ddeall y rhesymau dros y dirywiad a gofynnwyd hefyd am fanylion pellach am rôl y grŵp llywio newydd a sefydlwyd i adnabod y ffordd orau o wella perfformiad er mwyn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru.

DRAFT

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) bod cyfanswm yr ailgylchu sy'n cael ei brosesu yn uwch nag y bu, a bod hynny'n wir hefyd am wastraff cartref cyffredinol (gwastraff bin du), ond bod cyfran o hynny o ganlyniad i'r newid yn y gwastraff gwyrdd. Dywedodd fod y pandemig coronafeirws yn cael effaith ar reoli a chasglu gwastraff oherwydd bod mwy o wastraff bin du gan fod pobl yn gweithio gartref ac oherwydd i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref fod ar gau dros dro. Mae'n bosib hefyd fod mwy o becynnau bwyd o siopau tecawê a phecynnau nwyddau a brynwyd ar-lein yn ystod y cyfnod clo wedi mynd i'r biniau du yn hytrach na chael eu hailgylchu. Mae rhesymau eraill yn cynnwys problemau o ran canfod canolfannau i ailgylchu rhai deunyddiau ac mae hynny'n bryder i bob cyngor yng Ngogledd Cymru. Mae dwy ganolfan ailgylchu gwastraff cartref y Cyngor wedi ailagor yn awr ac ers ailagor mae safle Penhesgyn wedi delio gyda hyd at 400 ymweliad y dydd gan drigolion o Ynys Môn yn unig. Cafodd y risg y byddai rhywfaint o wastraff gardd yn cael ei roi yn y gwastraff cartref cyffredinol ei gydnabod pan gytunwyd i gyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff gardd y codir tâl amdano, yn ogystal â'r posibilrwydd y gallai nifer y tunelli o wastraff gwyrdd a gasglwyd ostwng; mae'n bosib bod rhywfaint o wastraff gardd wedi cael ei gompostio hefyd. Felly, er y gwelwyd effaith ar ganran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, mae'r prosiect wedi cynhyrchu incwm gwerth £500k. Er bod yr effaith wedi bod yn fwy amlwg yn Ynys Môn, mae'r patrwm hwn wedi cael ei ailadrodd ar draws y rhanbarth a dyna pam y sefydlwyd y grŵp llywio newydd gydag arbenigwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru i edrych ar y sefyllfa yn Ynys Môn, i nodi tueddiadau ac i chwilio am unrhyw wersi y gellir eu dysgu o'r dulliau a fabwysiadwyd gan awdurdodau eraill. Yn ogystal, bydd y grŵp yn ystyried a wneir y defnydd gorau o'r bocsys ailgylchu o ran y gymysgedd o ddeunyddiau ym mhob bocs. Wrth i'r Cyngor ddod allan o gyfnod gwaethaf y pandemig, bydd modd i staff sydd wedi bod yn ymateb i Covid-19, neu sydd wedi bod yn rheoli'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd y codir tâl amdano a rhoi'r contract casglu gwastraff newydd ar waith, ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r problemau presennol ac adfer cyfraddau ailgylchu i'r hyn yr oeddent cyn Covid.

Dywedodd yr Arweinydd efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried enwebu cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sgriwtini i wasanaethu ar y grŵp llywio newydd. Roedd y Cadeirydd yn credu y dylid cael gwybodaeth am aelodaeth y grŵp yn gyntaf ac y byddai'r Pwyllgor yn ystyried gwneud enwebiad wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 yn aelodau o'r grŵp llywio, er mwyn cydnabod bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif. Sicrhaodd y Pwyllgor y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn trefnu bod manylion am aelodau'r grŵp yn cael eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod hwn.

- Perfformiad mewn perthynas â Dangosydd 35 – canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd ar amser, sydd yn Goch gyda pherfformiad o 73% yn erbyn targed o 82%. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd fod gan y Gwasanaeth Cynllunio ddigon o gapasiti i reoli nifer y ceisiadau cynllunio ac y byddai'n ddigon gwydn hefyd i ddelio â cheisiadau sy'n mynd yn gynyddol gymhleth.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) bod gwaith ar y gweill i gryfhau'r capasiti Cynllunio drwy'r Cynllun Gwella Cynllunio ac y byddai gwelliant ym mherfformiad y dangosydd hwn yn cael ei wireddu unwaith y bydd capasiti mewn lle. Mae'r Swyddogaeth Gynllunio wedi creu swydd Swyddog Cynllunio dan Hyfforddiant ac er nad oes neb wedi cael ei benodi i'r swydd eto, rhagwelir y bydd y swydd wedi'i llenwi erbyn mis Mawrth 2022. Nid Ynys Môn yn unig sy'n wynebu problemau o ran capasiti - mae hon yn broblem ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Er bod ymadawiad dau swyddog profiadol yn gadael bwlch, mae'n cynnig cyfle i staff presennol a mynegwyd diddordeb yn y swyddi gwag a threfnwyd

DRAFT

cyfweliadau hefyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei fod yn hyderus y bydd modd llenwi'r swyddi craidd a bod ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i greu swyddi newydd, fydd yn cael eu cyllido o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth, i gryfhau capasiti ymhellach er mwyn ymateb i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau cynllunio ac yn nifer y ceisiadau technegol a/neu gynhennus.

Ar sail hynny, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod a gynhelir cyfweliadau gadael pan fydd staff yn gadael eu swyddi gyda'r Cyngor. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor fod yn rhagweithiol wrth recriwtio, gan gynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion a hyrwyddo Cynllunio, er enghraifft, fel gyrfa posib. Cadarnhaodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod gan y Cyngor bolisi a gweithdrefn ar gyfer staff sy'n gadael ac y cynhelir cyfweliadau gadael; mae'r cyfweliadau yn wirfoddol ac fe'u dyluniwyd i ganfod pam fod y gweithiwr yn gadael y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cynllunio ymgyrch recriwtio ar gyfer holl wasanaethau'r cyngor ac mae wedi sefydlu cysylltiad â Choleg Llandrillo Menai. Mae'r sector llywodraeth leol ar draws Cymru yn wynebu problemau recriwtio ac o'r herwydd mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi penderfynu ymchwilio i'r mater. Mae'r pandemig wedi newid natur y farchnad swyddi ac mae gweithio o bell wedi creu llawer iawn o gyfleoedd na fyddent ar gael neu'n ymarferol cyn Covid-19, yn ogystal ag ehangu ystod y cyfleoedd sydd ar gael i'r rhai hynny sy'n chwilio am waith.

- Mewn perthynas â phresenoldeb yn y gwaith, a oes unrhyw garfan yn peri pryder, ac os felly, pa fesurau cymorth sy'n cael eu darparu?

  Cyfeiriodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid at drefniadau'r Cyngor trwy'r ddarpariaeth Iechyd Galwedigaethol ar gyfer cefnogi staff sy'n absennol oherwydd salwch a nododd bod y trefniadau'n cael eu hyrwyddo'n dda o fewn y Cyngor. Mae adroddiadau yn y cyfryngau wedi tynnu sylw hefyd at broblemau y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd i lawdriniaethau gael eu gohirio, ac erbyn hyn maent yn cael effaith ar ffigyrau presenoldeb yn y gwaith. Serch hynny, fel y tystia'r adroddiad, mae perfformiad yn Ch1 bron union yr un fath â'r lefelau a welwyd yn Ch1 2019/20, a hwnnw oedd y chwarter lle gwelwyd y perfformiad gorau cyn i'r pandemig Covid gychwyn. Mae'r Cyngor yn monitro data absenoldeb salwch yn barhaus ac ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi o'r data yn unol â pholisïau a gweithdrefnau presennol.

**Ar ôl ystyried adroddiad y cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1 2021/22 a'r diweddariadau a roddwyd gan Swyddogion yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol ac i argymell y mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 MONITRO CYNNYDD: ADRODDIAD CYNNYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Linos Medi, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi'r cynnydd hyd yma o fewn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, ynghyd â chrynodeb o'r pynciau y rhoddodd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol sylw iddynt yn y pedwar cyfarfod a gynhaliwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2021.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at yr ymgyrch recriwtio Gofalwyr Maeth, sy'n dal i fynd rhagddo, ac sydd wedi cynyddu nifer gofalwyr maeth yr Awdurdod, yn ogystal â sicrhau bod mwy o blant yn derbyn eu gofal ar Ynys Môn ac yn parhau i fod yn rhan o'u teuluoedd estynedig a'u cymunedau lleol. Mae ymgyrch recriwitio wedi'i thargedu arall ar

DRAFT

lefel ranbarthol wedi'i chynllunio ar gyfer 2021/22. Mae dau o Gartrefi Clyd y Cyngor (cartrefi grŵp bach) wedi agor ac yn gweithredu'n llawn, ac mae trydydd Cartref Clyd a fydd yn darparu egwyl byr i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu wedi'i gwblhau a chais cofrestru wedi'i gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru ar ei gyfer. Mae pedwerydd cartref clyd ar y gweill erbyn hyn. Dyluniwyd cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc ac maent yn cael eu cyflwyno. Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae gwaith cynllunio ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol yn parhau i fynd rhagddo. Mae'r pandemig Covid 19 wedi cael effaith ar y rhaglen Cysylltu Bywydau sy'n cynorthwyo pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr a bwriedir adolygu'r rhaglen ym mis Rhagfyr. Yn yr un modd, bydd mwy o gyfleoedd i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio – mae sesiynau cymorth unigol wedi ailgychwyn mewn rhai achosion. Mae gwaith wedi'i wneud i sefydlu tri Thîm Adnoddau Cymunedol yn ystod y flwyddyn. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn i ddatblygu'r Prototeip WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) ar yr Ynys – mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ychwanegol. Er bod y Strategaeth Cyfleoedd Dydd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu mewn lle, ni chynhelir ymgynghoriad ffurfiol ar ddatblygu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel ar gyfer unigolion yn eu cymunedau tan y gwanwyn, 2022.

Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd er gwaethaf heriau a chyfyngiadau'r pandemig. Mae'r Panel yn parhau i dderbyn tystiolaeth o welliannau a datblygiadau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion, gan roi sicrwydd ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma, ac mae canfyddiadau gwiriad sicrwydd awdurdodau lleol AGC ar gyfer Ynys Môn yn cadarnhau hynny hefyd.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r adroddiad a gyflwynwyd –

- Tra'n croesawu'r ffaith fod y Strategaeth Cyfleoedd Dysgu ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu wedi'i gwblhau, mynegodd y Pwyllgor beth siom na fydd yr ymgynghoriad ar ddatblygu ystod ehangach o gyfleoedd dydd ar gyfer unigolion yn cymryd lle tan y gwanwyn, 2022. Yn ogystal â dymuno gwybod beth oedd y rhesymau am yr oedi, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y math o opsiynau cymunedol sy'n cael eu hystyried yn y cyfamser.

  Eglurodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol bod y darparwyr llai yn arbennig wedi dweud y byddai'n heriol iddynt gymryd rhan ac ymateb yn llawn i ymgynghoriad ar hyn o bryd oherwydd Covid-19; roedd yn cydnabod bod rhaid i'r amgylchiadau fod yn iawn ar gyfer cynnal ymgynghoriad, er enghraifft gallu sicrhau bod darpariaeth eirioli ar gael fel bod pob unigolyn yn cael dweud ei ddweud. Roedd y ffaith bod People Too, sydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni rhaglenni trawsnewid, ynghlwm â'r gwaith yn golygu bod yr Awdurdod eisiau clywed eu hadborth er mwyn cadarnhau ei fod ar y trywydd cywir ac, yn ogystal, roedd angen rhagor o amser i'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a benodwyd yn ddiweddar gael cyfrannu. Oherwydd y rhesymau hynny, barnwyd y byddai gohirio'r ymgynghoriad tan y gwanwyn, 2022, yn decach i bawb. Roedd gwasanaethau cymunedol ar gael, ac maent yn parhau i fod ar gael, a gwnaed penderfyniadau er mwyn diwallu anghenion penodol unigolion, gan gynnwys trefnu lleoliadau lle bo hynny'n briodol. Bu'r cymorth a ddarparwyd gan grwpiau yn y sector gwirfoddol yn werthfawr ac mae nifer ohonynt wedi addasu i ddarparu gwahanol fathau o gyfleoedd. Mae teuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth eu hunain wedi ymateb yn gadarnhaol hefyd.

  Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn, yn hytrach na darparu'r un ddarpariaeth i bawb drwy ganolfan ofal dydd ganolog, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio deall anghenion unigol pobl a theilwra cyfleoedd yn y gymuned yn unol â hynny yn mewn ffordd sydd yn fuddiol iddynt ac sy'n ehangu eu diddordebau a'u galluoedd e.e.

cyfleoedd gyda'r Bad Achub yng Nghaergybi neu waith garddio; dyma'r model y mae'r Gwasanaeth yn ceisio'i chyflawni ac y mae'n gobeithio ei hymestyn ledled yr Ynys.

Yn sgil yr uchod, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod a yw'r pandemig wedi arwain at gynnydd mewn anghenion iechyd meddwl a sut mae'r Gwasanaeth wedi ymateb. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn bod y niferoedd yn cael eu monitro'n ofalus a bod y ddarpariaeth wedi canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd yn yr awyr agored e.e. cerdded, beicio, campio a chanŵio, er mwyn helpu unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl i ganolbwyntio ar rywbeth arall ac i edrych tuag allan. Bu'n broses greadigol ac mae defnyddwyr gwasanaeth wedi gwerthfawrogi'n fawr.

- Cyfeiriwyd at brinder gofalwyr cartref ac roedd y Pwyllgor eisiau gwybod pa fath o gamau y mae'r Gwasanaeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

  Roedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod y pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa ond, serch hynny, roedd problemau yn bodoli o ran recriwtio gofalwyr cartref cyn Covid-19 ac maent wedi cael eu nodi fel risg. Sefydlwyd cysylltiadau â Choleg Llandrillo Menai i hyrwyddo cyfleoedd ymysg myfyrwyr a chynhaliwyd ymgyrch recriwtio yn ystod y gaeaf, 2020. Mae prinder cyffredinol o ofalwyr wedi cael ei amlygu fel risg a her gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod mewn cysylltiad agos â'r sector annibynnol er mwyn monitro gwydnwch ac i sefydlu faint o gymorth sydd ei angen ar y sector. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod ymgyrch recriwtio yn cychwyn yr wythnos hon fel cydnabyddiaeth o'r her genedlaethol i ddenu staff i'r sector gofal. Ar lefel broffesiynol, roedd yn awyddus i edrych ar y math o gontractau a ddarperir er mwyn ceisio gwneud y gwaith yn fwy deniadol ac yn fwy sefydlog, yn ogystal â chodi proffil y gwaith ar lefel genedlaethol trwy gydweithio â phartneriaid ar draws Cymru, a thynnu sylw at y gwahaniaeth gwirioneddol y gall gofalwyr ei wneud i fywydau unigolion. Mae hyn yn golygu bod angen cydnabod hefyd bod angen i waith staff yn y sector cyhoeddus, sydd wedi cael ei amlygu gan y pandemig, gael ei gydnabod a'i wobrwyo'n briodol,

- Cyfeiriwyd hefyd at dai grŵp bach y Cyngor (Cartrefi Clyd), ac yn benodol sut yr ariannwyd yr eiddo a brynwyd ac a oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfran o'r cyllid.

  Eglurodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r bwriad gwreiddiol oedd defnyddio tai o stoc dai'r Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n bosib oherwydd safonau AGC mewn perthynas â'r amgylchedd corfforol a maint ystafelloedd. Bu'r Awdurdod yn ffodus i fedru sicrhau grantiau o'r Gronfa Gofal Canolradd, sef grantiau a ddyrennir i'r rhanbarth ac sy'n cael eu dyrannu trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Awdurdod wedi prynu 3 eiddo hyd yma, sydd yn rhan o'r stoc dai ac felly'n ychwanegu gwerth at y stoc. Maent yn arbed arian a fyddai wedi cael ei wario ar leoliadau all-sirol costus ac, yn ogystal, gellir darparu'r gofal gorau posib i blant yng ngofal yr Awdurdod mewn amgylchedd cyfarwydd yn eu cymunedau.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.**

DRAFT

## 5 PANEL SGRIWTINI CYLLID

Rhoddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid ar 9 Medi 2021, fel a ganlyn –

- **Y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22 – diweddariad Chwarter 1**

  Ar ôl derbyn cyflwyniad llafar gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ynghylch y sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1 2021/22, nododd y Panel y canlynol –

  - Ei bod yn gynamserol dod i gasgliad ynghylch perfformiad y cyllidebau gwasanaeth ar sail data Ch1 gan y gallai llawer newid yn ystod y misoedd nesaf. Mae elfennau sy’n debygol o greu arbedion yn ystod y flwyddyn yn cynnwys lleoliadau ysgol all-sirol; incwm gwastraff gwyrdd a’r contract prydau ysgol.
  - Pwysau ar gyllidebau yn y Gwasanaethau Oedolion a’r angen i gadw llygaid hefyd ar gyllidebau’r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, er eu bod yn tanwario ar hyn o bryd.
  - Pryder ynghylch cyflwr ffyrdd a phriffyrdd ac, oherwydd sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Priffyrdd, yr angen i ystyried cwblhau gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y ffyrdd eleni.
  - Bod yr Awdurdod yn parhau i dderbyn iawndal gan Lywodraeth Cymru am incwm a gollir o dan nifer o benawdau, gan gynnwys ffioedd parcio a chanolfannau hamdden.

    Wrth nodi bod tanwariant yn y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22 yn Chwarter 1, penderfynodd y Panel argymell i’r Pwyllgor Sgriwtini y dylid ystyried cwblhau gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y ffyrdd eleni oherwydd sefyllfa ariannol gadarnhaol y Gwasanaeth Priffyrdd.

- **Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – diweddariad Chwarter 1**

  Ar ôl derbyn cyflwyniad llafar gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth / Swyddog Adran 151, nododd y Panel bod perfformiad y gyllideb gyfalaf yn Ch1 yn adlewyrchu’r patrwm blaenorol o danwariant, gyda llithriad yn fwyaf tebygol o dan y penawdau a ganlyn –

  - Rhaglen datblygu tai'r Cyngor
  - Rhaglenni moderneiddio tai cyngor o dan y cynllun Safon Ansawdd Tai Cymru
  - Addasiadau ar gyfer yr anabl mewn ysgolion
  - Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion
  - Cynlluniau atal llifogydd

  Wrth nodi’r tanwariant yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn Chwarter 1, nododd y Panel y tebygolrwydd hefyd y gallai’r gyllideb gyfalaf weithredu ar amserlen wahanol yn y dyfodol er mwyn i’r gyllideb gael ei gosod yn gynt a chaniatáu i brosiectau gychwyn yn gynharach a thrwy hynny osgoi tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Adolygiad Ariannol Tymor Canolig**

  Ar ôl derbyn cyflwyniad llafar gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, codwyd y pwyntiau a ganlyn gan y Panel –

  - Y gallai nifer o ffactorau effeithio ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, gan gynnwys y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol, chwyddiant a chodiadau cyflog, gan ychwanegu at gostau’r Cyngor.

DRAFT

- Bod arbedion yn cael eu rhagweld o dan benawdau'n ymwneud â lleoliadau addysg all-sirol; incwm gwastraff gwyrdd, incwm prydau ysgol a'r rhai hynny sy'n deillio o weithio'n wahanol.
- Yr heriau sylweddol wrth geisio rhagweld pwysau ar gostau yn y sector gofal.
- Yr her hefyd o geisio rhagweld y ddarpariaeth ariannol angenrheidiol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, nododd y Panel y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â chwblhau'r Adolygiad Ariannol Tymor Canolig.

- **Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi – Ymgynghoriad ar Lefel y Premiwm**

  Ar ôl derbyn cyflwyniad llafar cynhwysfawr gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn amlinellu prif negeseuon yr ymgynghoriad diweddar ynghylch lefel y Premiwm ar ail gartrefi, nododd y Panel y canlynol –

  - Y derbyniwyd cyfanswm o 1,397 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd dros gyfnod o 6 wythnos – 1,069 gan drigolion Ynys Môn a 261 gan berchnogion ail gartrefi.
  - Bod cyfanswm o 1,256 o ymatebwyr wedi datgan côd post ar Ynys Môn.
  - Bod Llywodraeth Cymru'n trefnu ymgynghoriad cenedlaethol ar her ail gartrefi.
  - Bod nifer o ymatebion yn cydnabod bod yr heriau yn sylweddol ac nad oedd modd ymateb iddynt drwy godi Premiwm y Dreth Gyngor yn unig. Gan fod risg uchel y bydd nifer o berchnogion ail gartrefi'n ceisio trosglwyddo eu heiddo i drethi busnes, mae angen eglurder ynghylch oblygiadau ariannol codi'r Premiwm o ran y posibilrwydd y byddai'r Cyngor yn colli incwm o'r Dreth Gyngor.
  - Roedd cydnabyddiaeth fodd bynnag na fyddai unrhyw golled ariannol i'r Cyngor oherwydd bod eiddo yn trosglwyddo i drethi busnes yn golled hirdymor oherwydd y ffordd y mae'r Llywodraeth yn cyfrifo Asesiad o Wariant Safonol pob awdurdod lleol trwy fformiwla cyllido sy'n rhoi ystyriaeth i'r incwm a gesglir o'r Dreth Gyngor.

  Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, nododd y Panel y byddai unrhyw gynnig i newid lefel y Premiwm ar Ail Gartrefi yn destun craffu fel rhan o broses gosod cyllideb 2022/23 ac argymhellir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y dylai'r Panel ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar her ail gartrefi, gan gynnwys rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gau'r bwlch presennol, lle gellir trosglwyddo ail gartrefi o'r system Dreth Gyngor i drethi busnes.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel, nodi'r pwyntiau a ddygwyd i sylw'r Pwyllgor a diolch i'r Cynghorydd Dafydd Roberts am yr adborth.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd blaen raglen waith y Pwyllgor hyd at fis Tachwedd 2021 i'w hystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2021/22.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18/10/2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol 20/21 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyhoeddiad Statudol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Aled M Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Dafydd Rhys Thomas |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | n/a |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor argymell:<br><br>• y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2020/21 erbyn y dyddiad statudol 31 Hydref a bod swyddogion, mewn cydweithrediad â'r Deilydd Portffolio ar gyfer AD a Thrawsnewid, yn cwblhau'r adroddiad fel y gellir ei gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor (26.10.21) |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol wedi'i ddrafftio i hysbysu ei ddarllenydd o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno. Mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi gwireddu disgwyliadau ei Ddogfen Gyflenwi Flynyddol (DGF). Mae'r DGF yn gynllun gwaith manwl sy'n cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Cyngor fel y nodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2017-22 |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys |

[ffocws ar lesiant]

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r 18 mis diwethaf wedi bod ymhlith y rhai mwyaf heriol i'r Awdurdod Lleol. I ba raddau mae'r pandemig wedi cael effaith a dylanwad ar amcanion llesiant strategol Cynllun y Cyngor ân gallu i gyflawni?
2. Mae 52% o'n dangosyddion perfformiad naill ai wedi cynnal neu wella eu perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a hynny o'i gymharu â 58% yn ystod 2019/20. Pa ffactorau tu hwnt i'r pandemig sydd wedi dylanwadu ar effaith y cyngor i gyflawni'n amserol ac effeithiol?
3. Dyma'r adroddiad perfformiad blynyddol diwethaf cyn Etholiadau Lleol 2022. Oes yna agweddau, anghenion, neu gyfleon newydd neu wahanol a fydd angen ei ystyrid wrth baratoi Cynllun y Cyngor newydd?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1.1 Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor yn ei Amcanion llesiant sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor.

1.2 Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2020/21.

1.3 Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Dogfen Cyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22 fel amlinellwyd drwy ein 3 amcan llesiant penodol -

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

1.4 Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y dywedasom y byddem yn ei gyflawni o dan yr amcanion uchod mewn blwyddyn hynod o heriol lle bu'n rhaid i'r Cyngor newid ac addasu ei wasanaethau i ddelio â'r disgwyliadau rheoliadol esblygol sy'n gysylltiedig â lliniaru'r effeithiau o'r pandemig ledled y byd.

| |
|---|
| 1.5 Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad terfynol fydd asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, sydd wedi cael eu heffeithio oherwydd Cofid wrth gymharu perfformiad blwyddyn ar flwyddyn.<br><br>1.6 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein cyflawniadau a'r meysydd lle mae angen gwella ymhellach |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amh. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amh. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amh. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Gall oblygiadau ariannol cyrhaeddiad yn erbyn amcanion ei gyfarch yn natganiad cyfrifo y Cyngor 2020/21. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 (drafft) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| • Dogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22<br>• Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 20/21




## Drafft Hydref 2021

# Cynnwys


Rhagair ....................................................................................................................2

Cyflwyniad................................................................................................................4

Ymateb i'r Pandemig Coronafeirws .........................................................................4

DangosyddionAllweddol yng Nghyswllt Coronafeirws ...........................................6

Perfformiad 2020/21 ................................................................................................8

Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad ...............................................8

Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad ..........................................................10

Amcan Llesiant 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor ..........................................................................................................13

Swyddi a Chyfleoedd Gwaith ..................................................................................13

Addysg a Sgiliau.......................................................................................................14

Iechyd a Lles ............................................................................................................15

Amcan Llesiant 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosibl ......................................................................................22

Cymorth i Oedolion Hŷn a Bregus...........................................................................22

Cymorth i Deuluoedd a Phlant.................................................................................24

Datblygu a Hyrwyddo...............................................................................................30

Trawsnewid ..............................................................................................................32

Perfformiad Ariannol 2020/21..................................................................................38

Casgliad ....................................................................................................................40

Gwybodaeth Bellach ................................................................................................41


DRAFT

## Rhagair

Fel Arweinydd y Cyngor, ni fyddem wedi gallu rhagweld maint a chyflymder y newid a oedd o'm blaenau wrth gynllunio ar gyfer ein tymor yn ôl yn 2017. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o weithgarwch y Cyngor yn ystod 2020/21. Mae pob un ohonom yn ymwybodol nad oedd y flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn arferol, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein hymateb i'r argyfwng yn ogystal â busnes fel arfer.

Ar ddechrau'r adroddiad hwn mae'n bwysig nodi pa mor ddiolchgar ydw i i bawb sydd wedi sicrhau llwyddiant y Cyngor er mwyn ein galluogi i wasanaethu pobl Ynys Môn.

Erbyn Ebrill 2020 roedd bywyd pob un ohonom wedi cael ei effeithio gan y cyfyngiadau a'r her o ymateb i'r argyfwng y cawsom ei gorfodi i ddelio ag o. Gwelsom ddinistr ac effaith yr argyfwng ar y gymuned. Yr wyf yn cydymdeimlo'n ddwys â phawb a dalodd y pris eithaf o golli rhywun agos yn ystod yr argyfwng, mae galar yn anodd beth bynnag ond yn ystod yr argyfwng mae wedi achosi hyd yn oed mwy o ofid i berthnasau a ffrindiau.

Ar ddechrau'r argyfwng daeth y Cyngor a'i bartneriaid ynghyd i gefnogi'r gymuned. Mae dros 900 o wirfoddolwyr wedi rhoi o'u hamser i gefnogi cymunedau Ynys Môn. Erbyn hyn mae nifer o gynlluniau tro da ar waith sy'n parhau i wirfoddoli yn eu hardaloedd.

Roedd yn rhaid i bob un o wasanaethau'r Cyngor addasu a chael eu haddasu o wasanaethau cymdeithasol i lyfrgelloedd, gwastraff i gynllunio, yr Oriel i ysgolion a gwasanaethau ieuenctid i hamdden.

Roedd cyhoeddi bod Ynys Môn ar gau er mwyn amddiffyn ein cymunedau yn mynd yn groes i'n natur groesawgar, ac wrth i'r sefyllfa wella, llwyddom i ailagor ein Hynys yn ddiogel ystod haf 2021 er mwyn cadw trigolion yr Ynys ac ymwelwyr yn ddiogel.

Oherwydd y sefyllfa'n lleol bu'n rhaid i benderfyniadau anodd gael eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Doedd dim penderfyniad anoddach na'r penderfyniad yr oedd yn rhaid i ni ei wneud i beidio ag ailagor ysgolion yma ar Ynys Môn er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb yn ddiogel. Hoffwn ddiolch i'r athrawon, plant, rhieni a swyddogion y Cyngor am sicrhau bod ein hysgolion wedi ailagor yn ddiogel ac ar adeg addas.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ynys Môn am fod mor arbennig yn ystod blwyddyn mor anodd a hoffwn ddymuno'n dda i bawb ar yr Ynys sydd bellach wedi gadael y system addysg. Cofiwch eich bod eich oherywdd eich treftadaeth a'ch diwylliant yn un o bobl 'Gwlad y Medra' a bod gennych chi'r gallu i gyflawni unrhyw beth.

Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer y llynedd yn cynnwys yr ail gynnydd isaf mewn Treth Cyngor yng Nghymru. Drwy wneud hynny, llwyddom i fuddsoddi mewn cynllun hyfforddeion, datblygu cynlluniau newid hinsawdd newydd a diogelu arian ychwanegol ar gyfer twristiaeth ar yr ynys gan osod sylfaeni cadarn ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi bwrw 'mlaen â'n rhaglen moderneiddio ysgolion a thrawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi gweld datblygiadau newydd ar gyfer ysgolion yn Llangefni a Chartref Clyd arall yn cael ei agor.

Rydw i wedi sicrhau llais cryf i Ynys Môn yn ystod trafodaethau cenedlaethol. Rydym ni fel Arweinwyr yng Nghymru wedi cwrdd bron yn wythnosol ers dechrau'r argyfwng er mwyn rhannu pryderon a dylanwadau ar Lywodraeth Cymru. Rydym ni fel chwe Arweinydd yr Awdurdodau yng ngogledd Cymru wedi cwrdd yn rheolaidd â Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.



DRAFT

Mae'n bwysig i mi fod llais Ynys Môn yn cael ei glywed yn genedlaethol, er mwyn dylanwadu ar bolisïau i ystyried ein cymunedau lleol a sicrhau'r gorau i Ynys Môn.

Er y datblygiadau hyn a'r penderfyniadau a wnaed, yn ystod blwyddyn mor heriol nid yw'n annisgwyl gweld gostyngiad o ran ein perfformiad cyffredinol oherwydd effaith Covid. Yr her i bob un ohonom nawr, yn y cyfnod wedi'r pandemig, yw gwella'r perfformiad hwn er mwyn rhoi sicrwydd i'n dinasyddion bod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gennym ni fel Cyngor ymysg y gorau sydd ar gael a pharhau i wneud gwahaniaeth fel Ynys.

Mae'r amgylchiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi newid pob un ohonom ond dylem fod yn falch o'r hyn yr ydym ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd fel ynys. Gyda'ch ymroddiad, ymrwymiad a'ch ysbryd cymunedol, gyda'n gilydd gallwn ddangos beth y mae modd ei gyflawni drwy gydweithio a symud ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.

Diolch.



Llinos Medi

DRAFT

## Cyflwyniad

Ein nod ar gyfer y cyfnod 2017-2022, fel y nodir yng Nghynllun y Cygor, yw–

**"Byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu"**

Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Ni fu ein nod erioed yn bwysicach nag yn ystod yr amseroedd ansicr hyn ym mywyd pob un ohonom, gyda phandemig coronafeirws ledled y byd yn newid y modd y buom yn byw ein bywydau dros y 18 mis diwethaf. Mae sawl aelod o'n teuluoedd, ynghyd â ffrindiau, cymdogion, cymunedau a chydweithwyr, wedi brwydro yn ystod y cyfnod hwn o 18 mis, ac fel yr ydym yn symud ymlaen i geisio byw â'r feirws, mae'n angenrheidiol ein bod yn cefnogi'r rheiny sydd agosaf i ni ac sydd yn ein cymunedau.

Y newyddion gwell yn ystod eleni yw bod y rhaglen frechu, hyd yma, wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion yn ein hysbytai. Fel Cyngor, buom yn gweithio'n galed â phartneriaid ac o fewn ein cymunedau, a byddwn yn parhau i wneud hynny, i sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr Ynys Môn fel ei gilydd yn parhau i fod mor iach â phosibl.

Felly, fel yn achos adroddiad y llynedd, byddwn yn dechrau trwy adrodd rhai o'r penderfyniadau allweddol a wnaed gan y Cyngor yn ystod y pandemig hwn, ac yna'n symud ymlaen i ddarparu diweddariadau ar y gwaith arferol a wnaed yn ystod 2020/21.

## Ymateb i'r Pandemig Coronafeirws

Adroddwyd am yr achos Covid-19 cyntaf ym Môn ar y 11eg Mawrth 2020. Yn dilyn cyngor Llywodraeth y DU i bawb yn y DU osgoi unrhyw deithio a chyswllt 'dianghenraid' ag eraill, sefydlwyd Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) gennym ar 18fed Mawrth 2020.

Roedd yr EMRT yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar weithgareddau a oedd yn ymwneud â Choronafeirws ar Ynys Môn, gan gynnwys trafod

- Darpariaeth gwasanaeth allweddol
- Gweithgareddau newydd
- Cynllunio'r gweithlu
- Cyfathrebu
- Rhannu gwybodaeth ac
- Iechyd a diogelwch

Arweiniwyd yr EMRT gan ein Prif Weithredwr, ac roedd yn cynnwys ein Dirprwy Brif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Arweinydd, ynghyd ag aelodau staff allweddol o safbwynt rheoli argyfwng. Roedd yr EMRT yn sicrhau bod y penderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar dystiolaeth, a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws y Cyngor, er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i risgiau allweddol fel yr oeddent yn codi. Byddai'r EMRT yn cyfarfod yn ddyddiol ar ddechrau'n pandemig, ac wedyn bob pythefnos fel yr oedd niferoedd dyddiol yr achosion Covid-19 positif yn gostwng. Ar adeg ysgrifennu hwn, cynhelir cyfarfodydd wythnosol yn dilyn cynnydd yn niferoedd yr achosion positif a newidiadau i'r rheolau a'r rheoliadau. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn rhithwir, gan ddangos gallu'r Cyngor i fod yn barod i ymateb ac addasu i heriau a gofynion newidiol mewn modd amserol.



DRAFT

O safbwynt y pandemig coronafeirws, daw gwaith Cynllunio at Argyfwng o dan ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posibl ac fe'i harweinir yn genedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar lefel Gogledd Cymru, caiff hyn ei gydlynu a'i arwain gan y Fforwm Cydnerthedd Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio), trwy'r Grŵp Cydlynu Strategol (GCS) ar gyfer argyfyngau. Bu'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau lleol a rhoi deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol ar waith.

Ar ddechrau'r argyfwng, byddai Arweinydd y Cyngor yn arfer ei phwerau i wneud penderfyniadau gweithredol pan nad oedd modd cynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Fe gafodd yr Aelodau eu briffio ynghylch y Ddeddf Coronafeirws a'i goblygiadau o ran rhwymedigaethau statudol y Cyngor, gan na fu modd cynnal busnes yn ôl yr arfer o safbwynt pwyllgorau o ganlyniad i hyn. Roedd rheoliadau newydd yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol o ran cyfarfodydd, wrth ganiatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd o bell.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion o bell ar 20fed Mai 2020, trwy ddefnyddio Microsoft Teams, ac roedd recordiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor.

Ers Hydref 2020, fe gafodd cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Cyngor eu cynnal a'u recordio yn defnyddio Zoom er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau cyfieithu a oedd ar gael. Gan y cynhelir pob un o gyfarfodydd y Cyngor o bell erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi penderfynu ffrydio pob cyfarfod yn fyw trwy ei sianel YouTube fel y gall aelodau o'r cyhoedd weld y cyfarfodydd mewn amser real.

Bu delio â'r argyfwng Covid-19 yn gryn her i'r Cyngor – nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol a chynnal busnes arferol lle'n bosibl, ond hefyd o ran sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i ddiogelu staff y Cyngor wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Ar ddechrau'r pandemig, bu rhaid i ni gau ein holl swyddfeydd a chanolfannau cyhoeddus, gan gynnwys –

- Gwasanaeth Cyswllt Môn ,
- Canolfan Busnes Môn,
- Canolfannau dydd,
- Canolfannau hamdden,
- Canolfannau ailgylchu,
- Llyfrgelloedd ac
- Ysgolion

Gofynnwyd i'n staff weithio o adref lle'n bosibl, ac fe gafodd nifer o staff o bob un o'n gwasanaethau eu hadleoli i ymgymryd â gwaith hanfodol mewn perthynas â'r pandemig Covid-19. O ganlyniad i hyn, roedd yn anochel y bu rhaid gohirio neu ganslo rhywfaint o'n gwaith dydd i ddydd, a gwelodd rhai o'n dangosyddion perfformiad ddirywiad mewn perfformiad, tra effeithiwyd eraill gan gau ein canolfannau a'u hailagor yn ofalus pan roddwyd caniatâd i wneud hynny. Nid oedd modd cyflawni'r targedau ar gyfer sawl un o'n dangosyddion, ac nid oedd yn bosibl darparu targed realistig ar gyfer sawl un o'r dangosyddion hyn am y flwyddyn oherwydd yr ansicrwydd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein perfformiad trwy'r ddogfen gyfan.

Felly, dros y flwyddyn ddiwethaf, fe aethom ati i flaenoriaethu:

- Cynnal gwasanaethau statudol rheng flaen.
- Rhoi gwasanaethau newydd ar waith mewn ymateb uniongyrchol i'r argyfwng.

- Cynllunio ar gyfer nifer sylweddol o farwolaethau.
- Amddiffyn a diogelu gweithlu'r Cyngor.
- Sicrhau cyflenwad Offer Amddiffyn Personol (PPE) digonol a safonol.
- Amddiffyn a chefnogi plant bregus a phlant ein gweithwyr allweddol yn ein Hybiau Gofal.
- Gweithredu canllawiau cenedlaethol.
- Gweithredu grantiau covid cenedlaethol, e.e. cymorth busnes, taliadau uniongyrchol ar gyfer prydau ysgol am ddim.
- Addasu'r gweithlu mewn cyfnod byr o amser a chreu'r amodau i ganiatáu dulliau gwahanol o weithio, gan gynnwys cyflwyno Microsoft Teams a galluogi staff nad oeddent erioed wedi gweithio o adref y gorffennol i wneud hynny.
- Dod yn un o'r Siroedd cyntaf i beilota'r system 'Profi ac Olrhain'.
- Ail-ddyrannu dyletswyddau staff er mwyn gweithio ar y tîm Profi, Olrhain ac Amddiffyn.
- Delio â heriau niferus o ran clystyrau ac achosion cynyddol, ynghyd â llwyddo i ymateb i hyn yn briodol, mewn modd amserol, trwy ymateb amlasiantaethol.
- Darparu cyfathrebiadau a rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn rheolaidd, yn fewnol ac yn allanol.
- Cydweithredu'n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Rhoi'r Cynllun Parhad Busnes AD, a'r Polisi a Gweithdrefn Adleoli Staff mewn Sefyllfa o Argyfwng ar waith.
- Cefnogi gwaith BIPBC o ran rhoi'r rhaglen frechu ranbarthol ar waith ledled y Sir, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Rhaid pwysleisio hefyd bod gwaith dydd i ddydd wedi parhau yn ystod cyfnod yr argyfwng ar draws sawl gwasanaeth, ond ein bod wedi addasu ein dulliau o weithio er mwyn cadw'r gweithlu a thrigolion yr Ynys yn ddiogel.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein hymateb yn yr adroddiadau ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13eg Gorffennaf 2020 a'r cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23ain Ebrill 2021.

## Dangosyddion Allweddol yng Nghyswllt Coronafeirws

Y dangosyddion a ddangosir isod yw dim ond rhai o'r materion allweddol a'r heriau y bydd angen eu hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio'r adferiad yn dilyn y pandemig Coronafeirws:

**Iechyd a Gofal**

- Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae achosion coronafeirws positif Ynys Môn ymhlith yr isaf yng Nghymru, gyda 92.8 o achosion fesul poblogaeth o 100k dros gyfnod o 7 diwrnod. I roi hyn mewn persbectif, gwelsom uchafswm o dros 178.5 o achosion fesul poblogaeth o 100k yn ystod mis Ionawr,
- Roedd bron i 800 o unigolion wedi cynnig eu henwau i wirfoddoli gyda Medrwn Môn yn ystod y pandemig, gyda 589 o wirfoddolwyr yn gweithio yn ystod pythefnos cyntaf y cyfnod clo. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae bron i 466 i wirfoddolwyr yn dal i roi cymorth i tua 650 o bobl yn ein cymunedau gydag amryw dasgau, o siopa i ddanfon meddyginiaeth. Ers dechrau'r pandemig, mae'r Timau Cymorth Ardal wedi cyflawni dros 10 mil o 'droeon da' ar gyfer tua 1.7k o bobl.
- Mae cynllun Neges wedi danfon mwy na 3000 o brydau i unigolion, cyplau a theuluoedd ers dechrau'r pandemig.

- Hefyd, mae'r Banciau Bwyd wedi dosbarthu dros 2500 o becynnau hyd yma, gydag ymateb eithriadol o ran rhoddion gan y cymunedau.
- Derbyniodd 3393 o bobl lythyr Gwarchod gan Lywodraeth Cymru, ac ar ôl i'r Cyngor gysylltu â'r unigolion hynny, danfonwyd tua 150 o barseli bwyd i'r rheiny a oedd angen y pecynnau.
- Yn ogystal â chynorthwyo gyda'r danfon parseli bwyd, cludodd Cludiant Cymunedol Môn lawer o'n unigolion bregus i glinigau brechu Covid-19.
- Telir cyfanswm o 1840 o daliadau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i deuluoedd cymwys ar yr ynys yn ystod tymor yr haf 20/21. Mae hyn yn gynnydd ar y 1140 o hawlwyr Prydau Ysgol am Ddim a nodwyd yn PLASC cyn y pandemig ym mis Ionawr 2020.
- Bu cyfartaledd o 105 o blant yn mynychu un o'r Hybiau Gofal Ysgol yn ddyddiol ar ddechrau'r pandemig, pan nad oedd llawer o wybodaeth am Covid-19 (Ebrill a Mai 2020), gyda chyfartaledd o 98 o aelodau staff yn bresennol.

**Yr Economi a'r Gweithlu**

- Roedd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ar yr Ynys ddiwedd mis Gorffennaf 2021 yn 5.2% o'r gweithlu sydd ar gael, ac mae'n tua 55% yn uwch na'r cyfartaledd o 2.9% yn 2019/20 (ONS).
- Gyda'i gilydd, fe gafodd 9100 o bobl eu rhoi ar ffyrlo ar ryw adeg hyd at ddiwedd Mai 2021, sy'n cyfateb i 24% o boblogaeth gweithlu Ynys Mon (ONS).
- Yn ôl y ffigurau ar 31$^{ain}$ Mai 2021, o'r 1,930 o hawliadau, roedd mwyafrif y taliadau ffyrlo yn ymwneud â'r diwydiant llety a gwasanaethau bwyd (tua 700 o hawliadau) ynghyd â'r diwydiant cyfanwerthu a manwerthu (tua 220 o hawliadau) (ONS).
- Mae prisiau tai cyfartalog wedi codi o £183k ar 1$^{af}$ Mawrth 2020, i £207k ar 1$^{af}$ Mawrth 2021 (ffigurau'r Gofrestrfa Tir).
- Hyd at ddiwedd Mehefin 2021, gwnaed tua 9800 o hawliadau i'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS). Talwyd cyfanswm o £24.4Miliwn i unigolion cymwys ar yr Ynys.
- Roedd cyfanswm o 149 o fusnesau, 90 Microfusnes a 59 o Fusnesau Bach a Chanolig, wedi hawlio tua £2.7M o Gam 1 o'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF). Mae 105 o fusnesau eraill, 89 Micro and 16 BBaCh, wedi hawlio £1.35M o Gam 2 o'r ERF.
- Mae'r Cyngor wedi talu 7,871 o daliadau gwerth cyfanswm o £40.55M mewn Grantiau Cofid Llywodraeth Cymru i fusnesau cymwys a gweithwyr llawrydd ers dechrau'r pandemig.
- Roedd tua 25% o staff y Cyngor wedi parhau i weithio allan yn y gymuned yn ystod ton gyntaf y pandemig, gyda chyfartaledd o tua 43% o aelodau staff yn gweithio o adref ar y pryd.
- Mewn arolwg staff diweddar a dderbyniodd 665 o ymatebion, cafwyd fod
    - 55% o staff ein swyddfeydd wedi bod yn gweithio o adref fel arfer, ac weithiau yn y swyddfa;
    - Bu 30% yn gweithio dim ond o adref;
    - Bu 10% yn gweithio o'r swyddfa fel arfer, ac weithiau o adref, a
    - Bu 5% yn gweithio o'u swyddfa arferol.

- Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, gyda dros £6.104m o'r costau ychwanegol a £2.369m o'r incwm a gollwyd yn cael eu talu gan Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru.

DRAFT

## Perfformiad 2020/21

Fe wnaethom amlinellu beth fyddem yn ei wneud i gyflawni Cynllun y Cyngor yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol (DGB) ar gyfer 2020/22. **Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaethom gyda'n camau gweithredu mewn perthynas â'n hamcanion a amlinellir yn ein DGB, ac yn cymharu ein perfformiad gyda mesurau allweddol**.

Nodwyd hefyd y byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r nodau a'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy sydd wedi eu hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein hamcanion yn cyd-fynd â'r rhain, fel y gwelir yn nhabl 1 isod.

| Amcanion Llesiant y Cyngor a'r Cysylltiad â Nodau Cenedlaethol | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Y Gymraeg / Diwylliant | Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 3. Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Tabl 1

## Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

**Beth yw Rheoli Perfformiad?**

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau a ddyrannir. Gydag aelodau staff wedi'u hailgyfeirio a'u hadleoli yn ystod y flwyddyn i weithio'n uniongyrchol ar faterion a oedd yn ymwneud â'r pandemig, roedd rheoli perfformiad yn her na welwyd mo'i thebyg, a mabwysiadwyd ymagwedd bragmatig trwy arweinyddiaeth ein Harweinydd a'n Prif Weithredwr.

**Cynllun y Cyngor**

Mae Cynllun y Cyngor wedi nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n llywio'r broses benderfynu ar bob lefel o fewn y Cyngor.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Caiff amcanion llesiant y Cyngor eu cyflawni trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF). Fel arfer, bydd y DGF yn cael ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellir yng Nghynllun y Cyngor, y bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar eu gwireddu yn ystod y 12 mis sydd i ddod. Mae'n amlwg y cafwyd anawsterau o ran cyflawni'r

terfynau amser hynny yn ystod 20/21 gydag ymddangosiad y pandemig byd-eang. O ganlyniad, lluniodd y Cyngor Sir Ddogfen Gyflawni 18 mis yn ystod Hydref 2020, a fydd yn arwain y broses o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â chynllunio ar gyfer adferiad am weddill tymor y weinyddiaeth gyfredol.

Ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn (y ddogfen hon) i adrodd ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, ynghyd â'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef dros y 12 / 18 mis diwethaf.

Cafodd y DGF ei monitro trwy amryw sianelau gwahanol a oedd yn cynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol ac
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol.

Caiff adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn eu hystyried wedyn gan ein swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau'n ymwybodol o'r cynnydd a wneir gennym yn erbyn ein blaenoriaethau. Ni lwyddwyd i wireddu elfennau'r fframwaith cyfan yn ystod 2020. Er enghraifft, fe gafodd adroddiadau'r cerdyn sgorio ar gyfer Ch1, ynghyd â'r adolygiadau o wasanaethau ariannol, eu canslo fel yr oedd gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig yn cymryd blaenoriaeth.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Nid oedd y Byrddau Rhaglen Trawsnewid, a gynhelir bob chwarter fel arfer, sy'n cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr, wedi cyfarfod mor aml.

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a gyrru cynnydd o ran Rhaglenni a Phrosiectau Newid perthnasol, ynghyd â rhoi hyder i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr bod buddion a ragwelir ar gyfer y Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu, ac mae sicrhau hyn mewn modd amserol yn allweddol. Mae'r cylch gorchwyl hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn ddiweddar i gynnwys croestoriad ehangach o fewnbwn gwleidyddol, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u hegluro'n glir.

O ganlyniad i effaith gorfod delio â COVID 19, ni chynhaliwyd cyfarfodydd y byrddau rhaglen mor rheolaidd ag y gwnaed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob gwasanaeth ymgymryd â dau Adolygiad Gwasanaeth bob blwyddyn, y byddant yn cael eu cynnal a'u rheoli'n gorfforaethol:

1. Adolygiad Ariannol o Wasanaeth

   Ymgymerir â hyn i ragweld arbedion o fewn gwasanaeth, ynghyd â gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo'r broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad o Berfformiad a Risg y Gwasanaeth

   Mae'n gofyn i wasanaeth gwblhau hunanasesiad o'r gwasanaeth i ganfod sut mae'r Gwasanaeth yn perfformio yn erbyn amcanion allweddol. Fe'i defnyddir i roi sicrwydd i'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth yn cyd-fynd â chyfeiriad ehangach y Cyngor, ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithiol.

Cafodd Adolygiadau Ariannol o Wasanaethau eu canslo y llynedd o ganlyniad i'n hymateb i'r pandemig, ynghyd â'r gwaith a wnaed gan y Cyngor i ddefnyddio a thalu allan yr arian a oedd ar gael i'r economi lleol trwy amryw grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Mae'r cerdyn sgorio corfforaethol yn fodd o hysbysu arweinwyr y Cyngor ynghylch y cynnydd a nodwyd yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a lleol, sy'n dangos llwyddiant y Cyngor o safbwynt cyflawni ei weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n cynorthwyo i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth drwy'r dangosyddion sy'n sail ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol, fel y'u hamlinellwyd a'u cytunwyd ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau gweithredu lliniarol y mae'r UDA wedi eu hadnabod er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau. Bydd yr adroddiad hwn yn destun craffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ar draws y gwasanaeth.

O ran craffu ar y cerdyn sgorio, fe gafodd hyn ei rwystro gan ein hymateb i'r pandemig, ac ni chafodd ei ystyried ar gyfer Chwarter 1.

Fel yr eglurir trwy weddill y ddogfen hon, fe gafodd yr holl ymdrechion hyn eu heffaith ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn.

## Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad

Mae'r cyngor yn monitro ei berfformiad trwy'r cerdyn sgorio corfforaethol, mae'r dangosyddion o fewn y cerdyn sgorio'n adrodd ar ddangosyddion cenedlaethol a lleol sy'n cyd-fynd ag amcanion allweddol y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, a darperir tystiolaeth yn unol â hynny trwy gydol yr adroddiad hwn.

Cyhoeddir Dangosyddion Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM), ac yn draddodiadol fe'u defnyddiwyd i gymharu bob Awdurdod Lleol yn erbyn yr un dangosyddion. Yn anffodus, oherwydd y Pandemig Coronafeirws cyfredol, ni fydd y gymhariaeth genedlaethol yn cael ei chynnal unwaith eto eleni, ac felly bydd y dadansoddiad o ddangosyddion eleni yn seiliedig ar ein perfformiad ein hunain yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Defnyddiwn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol i fonitro ein perfformiad yn erbyn amcanion y Cyngor a byddwn yn eu monitro'n chwarterol. Gwneir hyn i sicrhau mai amcanion y Cyngor yw canolbwynt yr adroddiadau ar berfformiad, yn hytrach na dim ond statws CAMG (RAYG) (gweler y diffiniad isod). Mae'r broses hon yn rhoi asesiad rheolaidd o'n perfformiad i'n Uwch Reolwyr, ein Haelodau Etholedig a'r cyhoedd, a gellir ei ddefnyddio i gychwyn camau unioni / lliniaru.

Nid oedd modd adrodd ar bob dangosydd o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Effeithiwyd ar rai o'n gweithgareddau dydd i ddydd gan y cyfnod clo cenedlaethol a'r cyfyngiadau o safbwynt argaeledd rhai o'n gwasanaethau. Roedd rhai o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gasglwyd yn draddodiadol gan Lywodraeth Cymru wedi'u hatal hefyd am yr un rhesymau.


Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 13 o ddangosyddion (28% o'r dangosyddion a oedd yn cael eu monitro gan y Cerdyn Sgorio) yr oedd y data a gasglwyd ar eu cyfer naill ai wedi'i ganslo gan Lywodraeth Cymru, neu nad oedd yn cael ei gasglu am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae'r rhesymau o ran y rheiny a effeithiwyd yn cynnwys y DPAau sy'n gysylltiedig â:

- Dangosyddion y Gwasanaeth Dysgu (eitemau 1-7 ac eithrio eitem 4) – Roedd yr ysgolion wedi cau tan fis Medi ac arholiadau wedi'u canslo. Roedd Llyfrgelloedd ar gau hefyd.
- Tai (eitemau 18, 34) – Mae dangosyddion digartrefedd gan Lywodraeth Cymru wedi'u hatal. Oherwydd y pandemig, mae oedi pellach yn effeithio'r feddalwedd newydd i fesur bodlonrwydd tenantiaid.
- Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (eitemau 8, 11-12) – Roedd Canolfannau Hamdden wedi cau ac nid oeddynt ond wedi ailagor yn raddol dros yr haf. Roedd hyn yn golygu y cafwyd niferoedd llawer is yn ymweld â hwy, ac roedd hyn yn ei gwneud yn amhosibl i osod unrhyw dargedau ystyrlon. Fe gafodd y Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (NERS) ei atal hefyd o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws.
- Gwasanaethau i Oedolion (eitem 19) – Fe gafodd y dangosydd Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal ei atal hefyd o ganlyniad i'r gwaith hanfodol a ddarparwyd gan y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws.

Ar ddiwedd blwyddyn heriol i bawb, mae'n galonogol cael nodi, o ran gweddill y dangosyddion a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn (33 o ddangosyddion), roedd y mwyafrif (70%) ohonynt wedi perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn lefel oddefiant o 5% o'u targedau.

Dengys y siart gylch isod (siart 1), yn ystod 2020/21, bod 31% o'n dangosyddion naill ai wedi gwella neu y cafodd ein perfformiad yn eu herbyn ei gynnal. Roedd perfformiad 41% ohonynt wedi dirywio o gymharu â hynny yn 2019/20 ac ni chafodd y 28% arall eu hadrodd o ganlyniad i Covid-19, fel y trafodwyd uchod.




Siart 1


Y flwyddyn nesaf, byddwn yn mynd ati'n unswydd i fonitro'r dangosyddion sydd wedi tanberfformio, ond hefyd y rheiny sydd wedi dirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn enwedig y dangosyddion o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (5), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (5) a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (3). Byddwn hefyd yn monitro'r dangosyddion sy'n dirywio o fewn y Gwasanaethau Tai (6), er bod y perfformiad da yn gyffredinol yn erbyn y targedau gosodedig ar gyfer y flwyddyn, yr oedd 78% ohonynt yn Wyrdd, yn rhywbeth cadarnhaol.

**Sut yr ydym yn cyflwyno ein perfformiad:**

Mae'r ddelwedd isod yn egluro sut yr ydym yn cyflwyno ein tueddiadau o ran perfformiad o fewn y cerdyn sgorio a thrwy'r ddogfen hon i gyd.  Cyflwynir y cynnydd mewn perthynas ag amcanion yn ystod 2020/22 fel testun o fewn siart, a chaiff ei godio yn ôl lliwiau sy'n cynrychioli eu statws o ran y cynnydd a wnaed, y cyfeirir ato fel statws CAMG:

Coch = 10% neu fwy yn is na'r targed
Ambr = rhwng 5% a 10% o'r targed
Melyn = o fewn 5% o'r targed
Gwyrdd = o fewn y targed

Cyflwynir y statws CAMG gyda'r dangosyddion perfformiad perthnasol ar ddiwedd pob adran. Nodir y Dangosyddion Perfformiad yn ôl yr enghraifft isod, sy'n cynnwys y statws CAMG lleol a'n tuedd o un flwyddyn i'r llall.



## Amcan Llesiant 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor

### Swyddi a Chyfleoedd Gwaith

*Yr hyn yr ydym wedi'i wneud*

Yn yr hyn fu'n flwyddyn anodd i bawb yng nghanol y pandemig Covid-19, rydym yn falch o gael adrodd bod y Cyngor wedi gwireddu'r canlynol –

- Wedi cynorthwyo dros 2000 o fusnesau ar yr Ynys i ddiogelu cymorth ariannol o ganlyniad i'r pandemig wrth ddosbarthu tua £40m mewn cymorth erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.
- Adeiladwyd 10 uned fusnes newydd yn Stad Ddiwydiannol Penrhos yn ystod y flwyddyn ac mae'r unedau gyda denantiaid lleol ynddyt. Mae'r unedau hyn yn darparu cyfle ardderchog i gefnogi twf busnesau lleol.
- Mae 2 denant newydd wedi diogelu swyddfeydd yng Nghanolfan Fusnes Môn sy'n creu 13 o swyddi newydd yn y broses. Dymunwn lwc dda i bawb yn eu hymdrechion yn eu cartrefi newydd.
- Darparodd y Rhaglen Arfor fuddsoddiad ariannol o £400,000 i gynorthwyo 36 o fusnesau i ddatblygu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Sicrhaodd Ynys Môn £1.3m o gyllid o'r cynllun Targedu Buddsoddiad Mewn Adfywio (TRI) ar gyfer Eiddo Gweigion yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'r cynllun wedi ariannu gwaith i addasu eiddo gweigion cymwys at ddefnyddiau preswyl, masnachol a chymunedol mewn ardaloedd blaenoriaeth.
- Diogelwyd £110,000k gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i gyflenwi blwyddyn gyntaf Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Cymru. Fel rhan o'r cynllun, cafodd 11 o fusnesau gyllid o Gronfa Grantiau Gogledd Ynys Môn sydd wedi helpu i
- greu neu ddiogelu 39 o swyddi lleol,
- creu 30 o gyfleoedd hyfforddi, a
- creu 96 o gyfleoedd gwirfoddoli.
- Cyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cymru i geisio cael dynodi Amlwch yn rhan o'r Parth Menter. Cafodd dau safle eu dynodi yn y tref i helpu sbarduno'r economi a chefnogi creu swyddi lleol yng ngogledd yr Ynys.
- Sefydlwyd menter gydweithredol â Grŵp Llandrillo-Menai i ddatblygu Fframwaith Brentisiaethau ar gyfer Gogledd Ynys Môn i helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau at y dyfodol yn yr ardal.

Cafwyd siomedigaeth fawr ym Medi 2020 pan gyhoeddodd Hitachi ei fod yn tynnu'n ôl o brosiect Wylfa Newydd, ac yn Ionawr 2021 pan gafodd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Wylfa Newydd ei dynnu'n ôl. Mae ein Rhaglen Ynys Ynni'n parhau i ymgysylltu â Llywodraethau'r DU a Chymru i ddiogelu datblygwyr newydd ar gyfer adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa.

Mae Rhaglen Ynys Ynni'n parhau i gynnig cymorth i'r prosiectau eraill sydd yn cael eu datblygu, gan gynnwys Morlais, Datblygu Glannau Caergybi, Fferm Solar Môn, Fferm Solar Traffwll, Marina Caergybi ac Awel y Môr, y mae pob un ohonynt mewn cyfnodau gwahanol o ran eu prosiectau.

Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithredu gyda phartneriaid rhanbarthol i yrru Bargen Twf Gogledd Cymru yn ei blaen. Arwyddwyd Cytundeb y fargen derfynol yn Rhagfyr 2020, a bydd Ynys Môn yn cael budd uniongyrchol ac anuniongyrchol o nifer o brosiectau allweddol, gan gynnwys prosiect Porth Caergybi, y Prosiect Prosesu Signal Digidol a Morlais.

Yn dilyn Brexit, rydym wedi cysylltu â Swyddogion Llywodraeth DU a Chymru i sicrhau bod newidiadau i'r tollau a'r ffiniau yng Nghaergybi yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n briodol, a bod digon o adnoddau ar eu cyfer. Rydym hefyd wedi defnyddio cyllid CLlLC i ganfod effeithiau Brexit ar yr Ynys ac i roi mesurau lliniaru ar waith yn eu herbyn.

## Addysg a Sgiliau

### *Yr hyn yr ydym wedi'i wneud*

Ar 20 Ionawr 2020, cytunodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i ymgynghori ynghylch dyfodol darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Llangefni. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad statudol ar gynigion a allai weld buddsoddiad o £16 mewn addysg yn ardal Llangefni. Ymgymerwyd â'r ymgynghoriad hwn yn ystod mis Chwefror / Mawrth 2020.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cytunodd y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 17eg Rhagfyr 2020, ar yr opsiynau o ran:

- Adleoli ac adeiladu Ysgol Corn Hir newydd, gwerth £10m, ar safle gwahanol
- Cynyddu capasiti Ysgol y Graig gydag estyniad gwerth £6m i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn

Cynhaliwyd seremoni torri tywyrch ar safle'r Ysgol Corn Hir newydd yn Llangefni, ar ddydd Gwener, 11 Mehefin 2021, i nodi dechrau'r prosiect yn swyddogol.

Dywedodd Deilydd Portffolio Addysg Ynys Môn, y Cynghorydd Meirion Jones,"*Rydw i'n falch iawn y bydd y prosiect hwn yn cael ei ddechrau cyn hir*."

Ychwanegodd, "*Rydym yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn adeiladau addysgol newydd sy'n addas i'r diben, yn y lleoliadau cywir, sy'n bodloni anghenion disgyblion ac sy'n adnoddau y gall cymunedau eu defnyddio. Bydd datblygiad Ysgol Corn Hir yn arwain at fuddsoddiad sylweddol yn Llangefni – nid yn unig o ran isadeiledd newydd ond yn bwysicaf oll fel ffordd o sicrhau'r addysg orau ar gyfer y plant sy'n mynychu'r ysgol newydd*."

Hyd yma, mae tair ysgol 21ain Ganrif wedi cael eu hadeiladu a'u hagor ym Môn a hynny yng Nghaergybi, Llanfaethlu a Niwbwrch – buddsoddiad o £22m mewn Addysg ar yr Ynys.

Eglurodd Pennaeth Ysgol Corn Hir, Mr Rhys Roberts, "*Rydym ni gyd – yn blant, rhieni, llywodraethwyr a staff wrth ein boddau bod yr ysgol yn cael adeilad newydd a bod y gwaith adeiladu ar fin dechrau. Mae'n gyfnod cyffrous yn hanes yr ysgol*."

"*Bydd adeilad newydd, modern ac addas i bwrpas yn sicrhau'r cyfleusterau a'r amgylchedd gorau ar gyfer ein plant. Gallwn rŵan adeiladu ymhellach ar ein cynlluniau cyffrous ar gyfer dyfodiad y cwricwlwm newydd. Rydym yn hynod o ddiolchgar fod y Cyngor – y swyddogion a'r aelodau etholedig wedi gweithio mor galed i sicrhau ysgol fydd yn gwasanaethu'r ardal am sawl cenhedlaeth i ddod*."

Penodwyd Wynne Construction fel y Contractwr Dylunio ac Adeiladu ac fe ddylai'r ysgol newydd – sydd wedi'i lleoli dros y ffordd i stad Bryn Meurig ar ffordd y B5109 – fod yn barod erbyn Chwefror 2023.

Mae'r gwaith yn parhau ar ddatblygu bloc newydd ar gyfer disgyblion Ysgol y Graig ac Ysgol y Talwrn. Cyhoeddir datblygiadau pellach ar ein gwefan ac mewn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ystod 2021/22.

Oherwydd effaith y pandemig, mae'r gwaith o ran y ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth addysgol yn ardaloedd Seiriol ac Amlwch am gael ei ail-werthuso.

Yn ystod y rhan gyntaf o'r flwyddyn, roedd pob adeilad ysgol ar gau oherwydd y pandemig coronafeirws, a darparwyd gweithgareddau i'w cyflawni adref ar gyfer pob myfyriwr.

Datblygodd yr ysgolion ddeunyddiau ar-lein i'r myfyrwyr eu cwblhau, yn ogystal â gwersi ar-lein gyda'r athrawon, ac yn raddol, agorwyd pob ysgol i'r myfyrwyr ym mis Medi.

Ers hynny, mae'r ysgolion wedi datblygu eu strategaethau dysgu cyfunol ymhellach, felly os oes angen i ysgolion neu ddosbarthiadau gau oherwydd achos coronafeirws positif, maent wedi paratoi'n dda ac mewn sefyllfa i allu newid i ddulliau dysgu digidol yn rhwydd.

Erbyn hyn, mae athrawon, myfyrwyr a rhieni yn gyfarwydd iawn â'r broses hon, a defnyddir dysgu cyfunol yn ddyddiol yn ein hysgolion.

Mae gwaith ar y cyd rhwng y Cyngor a'r consortia rhanbarthol, GwE, i hybu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, wedi arwain at ganolbwyntio mwy ar elfennau o ran arweinyddiaeth. Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd sawl enghraifft sy'n dangos y gwnaed ymdrechion i sicrhau bod llwybr datblygu ar gael i'r rheiny sy'n ymwneud ag addysg.

Bellach, mae 20 o athrawon sydd ar y rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth ganol yn agos at gwblhau'r rhaglen.

Derbyniodd hyfforddwyr arweinyddiaeth hyfforddiant trwy GwE, gyda 4 ohonynt erbyn hyn ar y Rhaglen Arweinyddiaeth Uwch. Eleni, mae 6 o athrawon o ysgolion Ynys Môn yn ymgymryd â'r Rhaglen i Ddatblygu Darpar Benaethiaid.

---

## Iechyd a Lles

### *Yr hyn yr ydym wedi'i wneud*

Yn ystod blwyddyn o newid mawr, daeth ein cymunedau ynghyd gyda channoedd o gymdogion, aelodau teulu a ffrindiau'n rhoi cymorth i bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

Mae'r cysylltiad cryf hwn dros y flwyddyn wedi ein helpu ni a'n partneriaid Menter Môn a Medrwn Môn i adeiladu ar y sylfaen o wirfoddolwyr a sefydlwyd o fewn ein cymunedau ers dechrau'r pandemig.

Mae'r bartneriaeth yn gweithredu tair ffrwd waith, sy'n cynnwys –

- Cyfeillio a lles – gan gynnwys unigolion a oedd yn y grŵp a warchodir
- Y ffrwd waith bwyd, gan gynnwys y banciau bwyd a pharseli bwyd Neges
- Gwirfoddoli – gwirfoddolwyr arbenigol a chymunedol sy'n gweithio ledled yr Ynys

Dysgwyd sawl gwers yn sgil llwyddiant yr hyn a gynigiwyd gan Gynghrair Seiriol, gyda llawer o enghreifftiau o arferion da a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r rhaglen, a datblygwyd wyth Cynllun Tro Da ar draws yr ynys.

Yn ystod mis Mawrth 2021, cafwyd apêl frys am wirfoddolwyr o ganlyniad i'r nifer o achosion o Covid-19 o fewn cymunedau Caergybi. Daeth gwirfoddolwyr ynghyd i helpu i gasglu a dosbarthu pecynnau profi i'r cymunedau lleol dros nifer o ddyddiau. Dysgwyd nifer o wersi o ganlyniad i'r profiad, ac fe'u defnyddiwyd bellach i helpu i baratoi ar gyfer sefyllfaoedd tebyg eraill o fewn cymunedau yn y dyfodol.

Mae llawer o droeon da yn parhau i ddigwydd ledled ein cymunedau, ond mae llai o wirfoddolwyr ar gael erbyn hyn gan fod llawer ohonynt wedi dychwelyd i'r gweithle. Er hyn, mae'n galonogol gweld, pe bai cynnydd arall mewn achosion, bod sicrwydd bod pobl yn barod i helpu eraill yn ystod cyfnodau anodd.



DRAFT

Ar y cyfan, ystyrir bod y gwaith gyda'r gwirfoddolwyr yn rhan o brosiect mwy hirdymor, gyda'r gobaith o wneud ein cymunedau'n fwy gwydn yn y dyfodol trwy sefydlu timau ardal ffurfiol.

O safbwynt tai, rydym wrthi'n barhaus yn adolygu'r modd yr ydym yn ymgysylltu â'n tenantiaid i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed bob amser wrth gynllunio'r gwasanaethau a gynigiwn ar eu cyfer. Yn ystod blwyddyn wahanol iawn i'r arfer, rydym wedi addasu i ddatblygu gwasanaeth sy'n fwy digidol nag erioed.

- O ganlyniad i newid sianeli yn y modd hwn, mae 40 o denantiaid nad oedd ganddynt lawer o sgiliau digidol wedi cofrestru'n llwyddiannus gyda Heneiddio'n dda a Medrwn Môn i ddatblygu eu sgiliau.
- Defnyddiwyd cyllid HRA gennym i fuddsoddi mewn 20 cyfrifiadur llechen i'n tenantiaid fel y gallent ryngweithio â ni ar ein platfformau digidol.

Mae'r Lolfeydd Cymunedol yn ailagor gyda chyfyngiadau tynn iawn ar waith i sicrhau bod y risg o achosion o Covid-19 yn cael ei leihau. Bydd hyn yn ein galluogi i gael deialog wyneb yn wyneb â thenantiaid nad ydynt agos i allu defnyddio adnoddau digidol. Rydym yn dal i fod yn ymwybodol hefyd bod rhaid i ni ddatblygu ein dulliau gweithio er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r rheiny nad ydynt yn defnyddio adnoddau digidol, gyda briffiau gwybodaeth Môn FM yn un o sawl dull y byddwn yn eu datblygu yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi bwyd a bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, fe aethom ati, ar y cyd â phartneriaid lleol, i gyflwyno cynllun 'Bwyd Da Môn / Môn Good Food'. Isod, gellir gweld astudiaeth achos ar y prosiect, ond gallwn ddweud yn sicr ein bod yn edrych ymlaen yn frwd am y rhagolygon o ran y cynllun at y dyfodol. Mae cynlluniau ar waith i sicrhau y gall pob cymuned ar yr Ynys gyrraedd y gwasanaeth trwy benodi gyrrwr fan i ddarparu gwasanaeth danfon i gartrefi, yn ogystal chasglu bwyd gan ein partneriaid. Buom yn llwyddiannus hefyd o ran ennill £165,000 mewn grantiau, gan gynnwys £41,000 arall gan yr ICF i ddatblygu'r cynllun at y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi gweld cynnydd yn y galw yn ystod Covid. Ers cau Cyswllt Môn, cynhaliwyd yr holl weithgaredd o ran digartrefedd dros y ffôn neu ar blatfformau digidol, gyda chymorth yn cael ei ddarparu o bell a thrwy ein darparwyr cymorth. Yn flaenorol, byddai cleientiaid yn cael eu gwahodd i fynychu apwyntiad wedi'i drefnu yn Cyswllt Môn, neu'n disgwyl am yr apwyntiad cyntaf a oedd ar gael y gellid ei gynnig ar y diwrnod hwnnw.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gyflym i'r pandemig, a chyflwynodd arweiniad y dylid lletya pob unigolyn ac aelwyd fel ymateb i bolisi iechyd cyhoeddus, o ran sicrhau bod pobl yn gallu diogelu eu hunain rhag Covid-19. Roedd angen i bob Awdurdod Lleol fynd ati'n gyflym i asesu nifer yr unedau llety brys a oedd ar gael, ynghyd â chanfod unedau ychwanegol nad oedd modd pennu eu nifer ar y pryd nac am faint o amser y byddai eu hangen.

Aethpwyd ati ar unwaith i lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn -

- Chwiliwyd am gapasiti ychwanegol o ran llety brys, fel Ciando, Prifysgol Bangor, ynghyd ag archwilio llety mewn Parciau Carafanau lleol, ond heb fawr o ymateb o ran cynnig capasiti ychwanegol yn ffurf unedau o ganlyniad i amryw resymau.
- Rhoddwyd caniatâd datblygu a ganiateir ar gyfer Bunkabins ym Mhlas Penlan, Llangefni, a oedd yn darparu llety o fath 'portacabin' hunangynhwysol ar gyfer 8 unigolyn.
- Darparwyd cymorth ychwanegol i eiddo a oedd yn darparu llety brys (yr oedd y mwyafrif ohonynt yn sefydliadau Gwely a Brecwast) yng nghyfnod cychwynnol Covid, i sicrhau bod cyflenwad digonol

o PPE i gynorthwyo lles cleientiaid yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf pan nad oedd yn hawdd cael gafael ar PPE.

Yn ystod 2020-21, cysylltodd 782 o aelwydydd â'r Gwasanaethau Tai am gyngor a chymorth, o gymharu â 652 yn 2019-20. O'r niferoedd hyn, roedd mwyafrif y rhai a oedd yn datgan eu bod yn ddigartref (66%) yn aelwydydd ag oedolyn sengl ac roedd 27% yn aelwydydd â phlant.

Mae aelwydydd yn cysylltu â'r Gwasanaeth am y rhesymau a ganlyn, yn unol â nifer uchaf y rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref:-

1. Chwalu perthynas
2. Perthnasau neu ffrindiau yn methu rhoi llety mwyach
3. Eiddo anaddas
4. Rhiant yn methu rhoi llety neu'n methu gwneud hynny mwyach

Roedd nifer yr aelwydydd a leolwyd mewn llety brys yn ystod 2020-21 yn amrywio o rhwng 27 i 63 o unigolion a theuluoedd bob nos. Dyma'r nifer uchaf a mwyaf cyson o aelwydydd y mae'r Gwasanaeth wedi darparu ar eu cyfer. Mewn cymhariaeth, lleolwyd rhwng 3 a 26 o aelwydydd mewn llety brys bob nos yn ystod 2019-20.

Gwelsom gynnydd yn nifer y bobl â
- Phroblemau iechyd meddwl,
- Problemau o ran camddefnyddio sylweddau,
- Cynnydd yn nifer y bobl hŷn,
- Aelwydydd sy'n profi trais domestig, a
- Pobl ifanc yn cael eu heithrio o blith eu teuluoedd neu ffrindiau.

Mae atgyfeiriadau i'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r wybodaeth o ran y data hwn, gyda phroblemau iechyd meddwl, trais domestig a chwalu perthnasau'n brif resymau dros gael mynediad i gymorth. Yn aml, mae pobl sy'n datgan bod arnynt angen cymorth mewn cyflwr bregus iawn, gyda darpariaeth yn cael ei wneud o ran bwyd, pecynnau cychwyn tenantiaeth, dodrefn sylfaenol a phecynnau i gynorthwyo os oes angen hunanynysu o ganlyniad i Covid.

Yn ystod y pandemig, ariannwyd costau lletya unigolion mewn llety brys gan Lywodraeth Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein hymateb i ddigartrefedd yn ystod y pandemig yma.

Yn ystod cyfnod rhyfedd ac anodd i'n plant ysgol, lle'r oeddynt yn gorfod gwneud gwaith ysgol adref a ddim yn cael gweld eu ffrindiau a'u hathrawon am gyfnodau hir, mae cymorth o ran iechyd meddwl yn faes hanfodol i sicrhau eu datblygiad. Mae strategaeth ar gyfer deall iechyd meddwl o fewn ein hysgolion wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn. Cafwyd sawl enghraifft dda sy'n dangos sut y cafodd camau i hybu iechyd a lles eu hintegreiddio o fewn ein hysgolion yn ystod y flwyddyn.

Mae nifer o athrawon ac aelodau staff o fewn ein hysgolion wedi derbyn hyfforddiant ac yn gweithio tuag at gyflawni diploma 'ysgolion sy'n ystyried trawma'. Cyflwynwyd rhaglen 'Sense' yn llwyddiannus ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ledled yr Ynys, sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion rhwng 4-16 oed ddealltwriaeth gadarn o sut i fwrw ymlaen yn synhwyrol i ofalu eu hanghenion o ran iechyd a lles. Cynigiwyd cynllun hyfforddiant iechyd meddwl gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, a gaiff ei deilwra ar gyfer bob ysgol unigol. Cafwyd cydweithredu agos rhwng y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (ADYaCh), y Cynllun Ysgolion Iach a'r Gwasanaeth Plant ac Iechyd, a fydd yn arwain at ragor o ddatblygiadau yn y dyfodol fel y dysgir gwersi trwy gydol y flwyddyn.

**Astudiaeth Achos –**

Mae Bwyd Da Môn yn fudiad cyffrous, newydd, sydd wedi tyfu o gydweithio rhwng nifer o sefydliadau yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor ar Bopeth Ynys Môn, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Llandrillo Menai, Banc Bwyd Môn, sefydliadau sector preifat a nifer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol.

Bob blwyddyn, mae tunelli o fwyd, gwerth biliynau o bunnoedd, yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae hyn yn cael effaith amgylcheddol enfawr ac mae hefyd yn golygu colli bwyd y gellid ei ail-bwrpasu'n hawdd a'i ailddosbarthu i'r gymuned, gan roi mynediad i bobl at fwyd o ansawdd da am bris isel a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu. Sefydlwyd Bwyd Da Môn i fynd i'r afael â'r broblem hon ar Ynys Môn.

Datblygir hyb cymunedol o amgylch y cysyniad o siop nid er elw sy'n ailddosbarthu cynnyrch gan nifer o archfarchnadoedd a chynhyrchwyr bwyd eraill.

Bydd gan Bwyd Da Môn Good Food amrywiaeth eang o stoc, gyda phwyslais ar gynnyrch maethlon, ffres. Cyfrannir pob eitem gan archfarchnadoedd, dosbarthwyr cyfanwerthu, y sector lletygarwch, darparwyr gofal, a chyflogwyr mawr.

Erbyn hyn, mae Bwyd Da Môn ar agor ac rydym bellach mewn sefyllfa i dderbyn gwastraff bwyd gan aelodau o'r gymuned er mwyn lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a mynd i'r afael â thlodi bwyd ar Ynys Môn.

Bu'r Gwasanaethau Tai'n rhan annatod o'r datblygiad hwn trwy ddarparu cymorth o safbwynt strategol a gweithredol. Wrth fynd ymlaen, bydd y Gwasanaethau Tai'n defnyddio eiddo Bwyd Da Môn i hybu Cyfranogiad Tenantiaid, a byddir yn mynd ati i annog tenantiaid i ddod yn aelodau, law yn llaw â darparu rhywfaint o oriau fel gwirfoddolwyr.

Mae sawl un o denantiaid y Cyngor wedi defnyddio'r fenter gwastraff bwyd ardderchog hon sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â lleihau faint o fwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, ond hefyd yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi o ran bwyd a thlodi'n gyffredinol.


"*Mae pethau gwahanol o bwys i bob un ohonom ni, ond un o fy rhai i yw gweld Ynys Môn yn llwyddo. Iawn, dwi wedi ymwneud a darparu prydau o fwyd a chefnogi banciau bwyd, sydd yn un peth, ond pan nes i glywed am Bwyd Da Môn, nes i feddwl – haleliwia, am fenter wych. Mae'n gas gen i wastraff hefyd – wrth dyfu i fyny a rŵan fel rhywun efo wyrion, doedden ni byth yn taflu pethau, yn sicr dim bwyd. O ran archfarchnadoedd yn taflu bwyd sydd yn berffaith dda, yn syml, oherwydd nad oedd cartref ar gyfer rhywfaint ohono, wel mae rhaid ffeindio ffordd arall. Mae gweithio yn y siop yn Llangefni wedi bod yn agoriad llygad - y gwerth mae rhywun yn ei gael am ei arian am un peth. Yr holl fwyd yma am £5 yr wythnos? A'r amrywiaeth hefyd. Gwir, mae yna bob math o eitemau bob-dydd y mae pawb eisiau, ond weithiau mae'r pethau ar y silffoedd neu'r rhewgelloedd ac oergelloedd yn fy synnu, hyd yn oed pethau nad ydw i erioed wedi clywed amdanynt o'r blaen. Mae'r cwsmeriaid yn amrywio gymaint â'r bwyd. Yn aml maent yn chwilio am fwyd ar gyfer eu teulu, ond mae rhai yn*

DRAFT

*awyddus i wybod beth sy'n newydd, beth sy'n ddiddorol neu yn rhywbeth newydd i drio, neu i wneud yn rhan o bryd newydd o fwyd. Ni waeth am sut y maent yn siopa, mae hi bob amser yn wych pan fyddent yn cerdded i ffwrdd yn hapus ac eich bod chi wedi chwarae rôl yn hynny."* Stephen Marsden – gwirfoddolwr ers Mawrth 2021

*"Nes i gychwyn fel aelod o Bwyd Da Môn, ond nes i ddisgyn mewn cariad efo'r syniad, a phopeth mae'r cwmni dielw yn sefyll amdano. Nes i benderfynu cymryd y naid a dechrau gwirfoddoli. Dyma oedd un o'r pethau gorau i mi ei wneud ers tro. Wrth wirfoddoli, rydw i'n cael synnwyr go iawn o gyflawniad ac yn teimlo fy mod i'n rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned. Trwy wirfoddoli, rydw i wedi gwneud ffrindiau a chyfarfod gymaint o bobl wahanol o fy nghymuned fy hun. Bob math o bobl anhygoel, i gyd efo un diddordeb cyffredin; arbed gwastraff bwyd. Trwy ddod yn wirfoddolwraig rydw i wedi dysgu amryw o bethau, a dyma'r profiad gorau i mi ei gael erioed. Mae gen i sgiliau newydd a ffrindiau oes. Mae bod yn wirfoddolwr i gwmni cymunedol di-elw bach yn brofiad anhygoel ac rydw i mor falch o fod yn rhan o'r tîm."* Katherine Edwards – gwirfoddolwraig ers Mai 2021.

**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**



17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau

8.1 Gwyrdd

Tuedd ↑

19/20 - 16.44

1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd

COVID-19

2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd

COVID-19

4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11

COVID-19

5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen

COVID-19

6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf]

COVID-19

7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd

COVID-19

8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden

COVID-19

11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff

COVID-19

12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff

COVID-19

15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd

COVID-19

18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol

COVID-19

Mae'r dangosyddion sydd ar gael ar gyfer ein Hamcan Llesiant 1 wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn, o gymharu â'u targedau, ac eithrio 2 ddangosydd a oedd yn goch yn erbyn eu targedau gosodedig ar gyfer y flwyddyn. Roedd 4 o'r dangosyddion naill ai wedi gwella neu mae'r perfformiad sy'n gysylltiedig â hwy wedi'i gynnal o hynny yn 2019/20, tra bo 3 o'r dangosyddion cymharol wedi dirywio o gymharu â 2019/20.

Yn anffodus, cafodd 11 (61%) o'r 18 o ddangosyddion a osodwyd yn erbyn yr amcan hwn eu heffeithio gan y pandemig Covid-19 ac ni chawsant eu monitro yn ystod y flwyddyn. Fel y trafodwyd uchod yn adran dangosyddion perfformiad a dadansoddiad y ddogfen hon, roedd yr holl resymau am beidio â chasglu'r rhain y tu hwnt i'n rheolaeth am amryw resymau.

Y dangosydd cyntaf a oedd yn goch yn erbyn ei darged oedd dangosydd 3 uchod. Cyhoeddwyd hwn gan Gyrfa Cymru yn dilyn arolwg ciplun ym mis Tachwedd 2020 o'r rheiny sy'n NEET (Ddim mewn

Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant), ac a oedd wedi gadael blwyddyn 11 ym mis Mai 2020. Roedd y perfformiad yn golygu y rhoddwyd y Cyngor yn y chwartel isaf ar gyfer y dangosydd hwn am y flwyddyn. Yn ddiamau, tra bo pandemig Covid-19 wedi effeithio perfformiad y dangosydd, o ran nad oedd swyddogion yn gallu ymweld â chartrefi'r bobl ifanc hyn, roedd yn amlwg bod ffactorau eraill ar waith hefyd.

Mae swyddogion ieuenctid yn gweithio'n agos â'r bobl ifanc sy'n NEET ar ôl derbyn eu henwau gan Gyrfa Cymru. Eleni, yn anffodus, o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, ni chawsom wybod am sawl un o'r unigolion hyn tan fis Tachwedd, ar adeg yr arolwg ciplun. Cafodd y mater hwn ei godi'n ffurfiol â Gyrfa Cymru.

Gan edrych ymlaen, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cytuno ar weithdrefn newydd gyda Gyrfa Cymru i'w dilyn ar gyfer 2021. Sefydlwyd panel Blwyddyn 11 hefyd, gydag aelodau'n cynrychioli'r ysgolion, TRAC, Gyrfa Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Swyddogion Lles, Cyfiawnder Ieuenctid ac eraill i helpu i fynd i'r afael â'r mater. Hefyd, defnyddir systemau eraill sydd eisoes ar waith i helpu i wella'r perfformiad hwn wrth fynd ymlaen.

Yr ail ddangosydd a oedd yn goch yn erbyn ei darged oedd dangosydd 10 uchod, sef canran y busnesau risg uchel a oedd yn destun arolygiadau a oedd wedi'u cynllunio a arolygwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd.

Cafodd y gwaith hwn ei effeithio gan y pandemig Covid-19, o ran nad oedd ond modd cynnal 35 o'r 159 arolygiad a gynlluniwyd ers Ebrill 2020. Roedd hyn oherwydd bod rhaid i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd (EHO) hoelio eu sylw ar reoli heintiau a gwaith a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 yn ystod y pandemig. Caiff yr holl achosion a gyfeirir at yr EHO gan y tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) eu harchwilio, gan leihau eu capasiti i allu cynnal arolygiadau hylendid bron yn gyfan gwbl.

Cafodd gwaith ei rwystro gan gau busnesau a'r cyfnodau clo. Cyfeiriwyd unrhyw adnoddau a oedd ar gael tuag at ymateb i ganllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) o ran y gwaith y dylid ei flaenoriaethu. Mae Cynllun Adferiad yr FSA yn nodi nad oes unrhyw ddisgwyliad i gwblhau arolygiadau sydd wedi'u cynllunio tan 2022/23. Hyd yma, o safbwynt cenedlaethol, ni dderbyniwyd unrhyw gadarnhad o ran sut y caiff arolygiadau eu blaenoriaethu ar ôl y pandemig. Hefyd, oherwydd gostyngiad mewn safonau / diffyg cydymffurfiaeth yn yr eiddo hynny a arolygwyd, mae hyn yn golygu bod yr arolygon hyn yn cymryd llawer mwy o amser i'w cwblhau.

DRAFT

## Amcan Llesiant 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosibl

### Cymorth i Oedolion Hŷn a Bregus

*Yr hyn yr ydym wedi'i wneud*

Unwaith eto, gallwn nodi, yn sicr, mai 2020/21 fu un o'r blynyddoedd mwyaf heriol i fod yn gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd y pandemig Covid-19 ledled y byd. Roedd ymdrechion aruthrol ein gweithwyr gofal rheng flaen yn ein cartrefi gofal, ynghyd â'n timau gofal cartref, mewn lleoliadau mewnol ac allanol, yn rhyfeddol. Cafwyd llawer o straeon cadarnhaol ynghylch eu hymroddiad a'u hymrwymiad i gleientiaid yn ystod y flwyddyn, gyda llawer yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau gofynnol.

Er gwaethaf pandemig Covid-19 a'r heriau ariannol bythol gynyddol a wynebwyd, rydym wedi parhau i wneud cynnydd, er yn arafach oherwydd pwysau'r pandemig. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â chydweithwyr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yr ydym wedi gweithio'n agos gyda hwy trwy gydol y pandemig, i sicrhau lles a diogelwch dinasyddion Ynys Môn.

Oherwydd y pandemig

- Gwelwyd gostyngiad syfrdanol yn nifer y bobl sy'n gallu cael at Wasanaethau Iechyd yn gorfforol,
- Mae'r mwyafrif o apwyntiadau bellach yn cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy apiau ar-lein,
- Mae'r symudiad sydyn tuag at apwyntiadau ac ymgynghoriadau ar-lein wedi eu gadael yn teimlo'n fwy datgysylltiedig nag erioed,
- Mae'r rhwystrau'n cynnwys
  - Dim mynediad i'r rhyngrwyd.
  - Dim dyfeisiau i fynd ar-lein,
  - Dim sgiliau a hyder i ddefnyddio'r systemau newydd,
  - Dim cefnogaeth gan ffrindiau neu aelodau teulu i'w rhoi ar ben ffordd gyda'r dechnoleg.

Mae'r Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anabledd Dysgu wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor a chafwyd cytundeb am ymgynghoriad llawn ar ddatblygu darpariaeth gymunedol (yn seiliedig ar ganlyniadau unigol) ledled yr ynys. Yn anffodus, oherwydd yr ymateb i COVID-19 a'r cyfyngiadau lleol ar deithio a chyswllt wyneb yn wyneb, ni fu'n bosibl cynnal yr ymgynghoriad.

Mae grŵp llywio'r prosiect wedi parhau i gyfarfod, a thrwy ddefnyddio'r grant Cronfa Gofal Integredig, sefydlwyd swydd datblygu adnoddau cymunedol newydd. Cafwyd cryn dipyn o gynnydd o ran nodi adnoddau cymunedol yn ardal Caergybi a chynigir ymestyn y gwaith hwn i weddill yr ynys yn ystod y flwyddyn. Mae rhaglen o weithgareddau a chyfleoedd wedi'i chyd-gynhyrchu gyda phobl ag anableddau dysgu.

Cynigir hefyd y byddir yn cryfhau ein trefniadau comisiynu gyda darparwyr allanol i sicrhau bod darpariaeth yn y dyfodol yn cwrdd â chanlyniadau unigol ac yn hyrwyddo dilyniant ac annibyniaeth trwy'r gefnogaeth a gynigir.

Mae sefydlu a datblygu timau adnoddau cymunedol (TAC) ledled Ynys Môn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gwasanaeth. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi

- Ailstrwythuro i dair bro TAC dynodedig.



DRAFT

- Wedi dechrau gweithio’n rhithwir gydag asiantaethau iechyd a phartneriaid i yrru'r agenda integreiddio yn ei blaen.
- Cafwyd cynnydd gyda sefydlu cyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol i drafod achosion cymhleth.
- Mae gostyngiad yn nyraniad y cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen Drawsnewid wedi arwain at adolygu strwythur y prosiect ac, er mwyn gyrru’r Prosiect yn ei flaen yn 2021/22, mae Ynys Môn wedi sicrhau ei fod yn fewnol.

Defnyddiwyd Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru i brynu adeilad yng nghanol y dref yn Llangefni, i gefnogi Mencap Môn a darparu Hyb ar eu cyfer yng nghanol Ynys Môn, fel bod modd iddynt roi eu gweledigaeth ar waith - “byd lle mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal, eu bod yn cael clust a chael eu cynnwys.”

Oherwydd Covid-19, mae’r Hyb wedi bod ar gau yn ystod rhan helaeth o’r flwyddyn, ond mae Mencap Môn wedi bod yn brysur yn cynnal sesiynau rhithwir ar gyfer ei aelodau, a’r gobaith yw y bydd gweithgareddau’n ailddechrau cyn bo hir.

Mae'r tîm Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl yn hwyluso ystod o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn cyfleoedd cymunedol a hamdden ac ennyn diddordeb ynddynt, gan felly wella lles, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a hyrwyddo gwydnwch a chefnogaeth gan gymheiriaid. Yn ystod y flwyddyn,

- Bu’n rhaid rhoi’r gorau i lawer o weithgareddau cymunedol,
- Cyflwynodd y tîm ystod o gyfleoedd i bobl gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu ‘rhithwir’,
- Cysylltwyd yn rheolaidd ag unigolion a gefnogir,
- Lle bo angen, cyfeiriwyd at ffynonellau cymorth eraill,
- Datblygwyd pecynnau gwybodaeth brys a'u rhannu â phobl a oedd yn byw mewn llety â chymorth er mwyn sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael bob amser.
- Gwelwyd cynnydd gyda chyflwyno cymorth prosiect Medraf (‘I-Can’) trwy hybiau cymunedol a thîm Cyngor ar Bopeth (CAB) Ynys Môn,
- Yn ychwanegol i hyn, cynigir cymorth y Tîm Iechyd Meddwl ar-lein, trwy gyfarfodydd rhithwir,
- Yn ôl arwyddion cynnar, mae’r fethodoleg hon yn profi i fod yn llwyddiannus ac mae’n debygol mai hwn fydd y model ar gyfer y dyfodol,
- Hefyd, mae’r tîm gwasanaethau cymorth iechyd meddwl wrthi’n mynd ati’n raddol i ailgyflwyno rhaglen o gyfleoedd cymdeithasol a hamdden o fewn cymunedau lleol, yn unol â rheoliadau COVID-19.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi diogelu cyllid i ddatblygu model Hyb Cymunedol Rhithwir ar yr ynys. Cyn bo hir, wrth weithio gyda’n partneriaid, sef Medrwn Môn, y Gynghrair Hybiau Cymunedol, Cyngor Pobl Hŷn Ynys Môn a Canolfan Cydweithredol Cymru, byddir yn lansio canolbwynt cymunedol ar-lein mewn ymateb i gau hybiau cymunedol dros dro yn ystod yr argyfwng coronafeirws.

Er y codwyd y cyfyngiadau’n ddiweddar, rydym yn ofni mai llawer o'r bobl sy'n mynd i weithgareddau Hyb Cymunedol yw'r bobl sydd fwyaf mewn perygl, ac felly bydd gofyn iddynt barhau i gadw pellter cymdeithasol, cysgodi a hunanynysu am gyfnod hir eto. Gyda hyn mewn golwg, roeddem yn teimlo bod angen sicrhau bod y rhwystrau hyn sy'n atal rhyngweithio cymdeithasol a chymryd rhan yn cael eu goresgyn trwy sicrhau ffordd haws a fforddiadwy i gymdeithasu ar ei newydd wedd.



DRAFT

Mae gwaith i yrru'n cynlluniau yn eu blaenau ar gyfer cynllun Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys wedi gwneud cynnydd eleni. Os caiff ei gytuno gan y Pwyllgor Gwaith, mae safle posibl wedi'i glustnodi ar gyfer y datblygiad £13.5m. Bydd y cynlluniau, sy'n amodol ar gael caniatâd cynllunio, yn gweld 45 o randai yn cael eu diogelu at ddibenion gofal ychwanegol, gyda 15 o welyau yn cael eu defnyddio ar gyfer cymorth arbenigol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21.

## Cymorth i Deuluoedd a Phlant

### *Yr hyn yr ydym wedi'i wneud*

Yn yr hyn fu'n flwyddyn anodd i'n gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd a phlant, rydym wedi llwyddo i ymgymryd â'r canlynol o fewn ein Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:

- Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma plentyndod cynnar ac sy'n cael trafferth gydag anhwylderau ymlyniad.
- Ar hyn o bryd mae gennym ddau Gartref Grŵp Bach - o'r enw "Cartrefi Clyd Môn" - sydd wedi'u cofrestru a chael eu traed danynt –
  - Cartref Clyd Bryn Hwfa, sy'n gartref i un unigolyn ifanc,
  - Cartref Clyd Llanfair, lle mae dau unigolyn ifanc yn byw.
- Rydym yn bwriadu cofrestru cartref grŵp bach arbenigol arall, a fydd yn gyfle i blant a gefnogir gan y gwasanaethau plant arbenigol gael seibiant.
- Rydym hefyd yn gobeithio cael trydydd cartref grŵp bach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal cyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn fodd i ni allu cynnig lle i ddau unigolyn ifanc lleol arall, a fyddai, fel arall, mewn perygl o gael eu lleoli'r tu allan i'r Sir.
- Eleni, mae Timau Maethu o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth trwy fideo a cherdd arbennig, chwalu mythau ynghylch maethu, ac ym mis Mai 2021, goleuwyd adeiladau/tirnodau ledled Cymru fel arwydd o gefnogaeth i'n gofalwyr maeth i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd maethu.
- Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd gan y Tîm Lleoli Plant (Gwasanaeth Maethu Ynys Môn) gyfanswm o 64 o deuluoedd maeth, yn cynnwys:
  - 36 o gartrefi maethu prif ffrwd
  - 28 o aelwydydd cysylltiedig, (mae hyn yn cynnwys un wedi'i gofrestru dros dro dan Reoliad 26)
- Un peth cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd ein bod wedi gallu parhau i recriwtio, asesu, cymeradwyo a chefnogi gofalwyr maeth ar Ynys Môn yn ystod y pandemig, trwy ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio megis ymweliadau cartref 'rhithwir' trwy fideo. Yn ystod 2020/21 bu i ni gymeradwyo:
  - 9 o gartrefi maethu prif ffrwd (cyffredinol)
  - 14 o aelwydydd cysylltiedig (teulu a ffrindiau)
- Ar adeg ysgrifennu hwn, mae tua 110 o unigolion wedi'u cofrestru ar gyfer ein cartrefi gofal maeth.
- Mae'n bleser cael nodi bod nifer uwch o blant yn cael aros ar yr Ynys, ac mae hyn yn bwysig fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u teuluoedd estynedig a'u cymunedau lleol.
- Rydym wedi cymeradwyo nifer fechan o leoliadau Maeth Arbenigol yn ystod y flwyddyn a fydd yn rhoi cymorth i'r fam a'i babi yn yr un lleoliad, sy'n osgoi'r angen am leoli teuluoedd y tu allan i'r Sir ar gyfer asesiadau a chymorth arbenigol.



DRAFT

- Yn ystod 2020-21, roeddem wedi cyfrannu at Wasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Gogledd Cymru, lle cafodd pump o blant o Ynys Môn eu lleoli â theuluoedd ar gyfer eu mabwysiadu.
- O'r pump o blant, daeth un ohonynt wedyn yn destun gorchymyn mabwysiadu ac felly fe gafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol.
- Mae'n debygol y caiff y pedwar plentyn arall eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod 2021-22.
- Yn gadarnhaol, mae pum teulu o Ynys Môn ar hyn o bryd yn y broses o gael eu hasesu i fod yn fabwysiadwyr. Y tebygrwydd yw, os byddant yn llwyddiannus, na fydd plant Ynys Môn yn cael eu lleoli gyda'r teuluoedd hyn. Fodd bynnag, byddant yn cyfrannu at y gronfa o fabwysiadwyr sy'n gallu rhoi lleoliadau i blant Cymru ledled Gogledd Cymru a thu hwnt.

Cafodd gwaith i gynyddu'r Stoc Dai ei effeithio gan y pandemig Covid-19. Cafwyd oedi o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau'r prosiect i gynyddu'r stoc dai ar gyfer tenantiaid. Mae'r nod terfynol o gyflawni cynnydd o 83 o dai yn dal i fod ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn diwedd Mawrth 2022. Ar adeg ysgrifennu hwn, cafodd 26 o dai newydd eu hadeiladu, roedd 9 o dai wedi'u hailddatblygu, cafodd 8 o dai a fu'n flaenorol yn rhan o stoc dai'r Cyngor eu hail-brynu, ac mae 38 o dai eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd grantiau gennym gan 'Raglen Tai Arloesol 2020-21' a 'Grant Cyfalaf Cam 2 Grant Digartrefedd 2020/21' i ddatblygu safle hen Ysgol Llaingoch, Caergybi, ac adeiladu cartrefi newydd ar y safle.

Defnyddiwyd Premiwm y Dreth Gyngor gennym hefyd i sicrhau bod pobl leol yn gallu cael mynediad i dai addas o fewn eu cymunedau lleol, trwy ddatblygu a moderneiddio 3 cartref gwag er mwyn iddynt fod ar gael i'w prynu gan drigolion lleol sy'n prynu am y tro cyntaf.

Yn anffodus, mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y gwaith o ran cyflwyno system Gwasanaethau Tenantiaid Digidol a fydd yn caniatáu i denantiaid gyfathrebu â ni thrwy ddulliau digidol, gan gynnwys hysbysu am unrhyw faterion o ran gofal cwsmer, gofal a gwaith atgyweirio, talu rhent a hysbysu ynghylch unrhyw gwynion am ein hystadau . Bydd datblygiad y gwaith hwn yn parhau yn 2021/22. Gellir gweld rhagor o ddiweddariadau ar gysylltu â'n tenantiaid o dan Iechyd a Diogelwch uchod.

---

**Astudiaeth Achos 2 –** Astudiaeth Achos yng nghyswllt y Grant Cymorth Tai

At ddibenion yr astudiaeth achos hon, ac i ddiogelu a pharchu hawl y cleient i fod yn anhysbys, byddwn yn newid ei enw i "John".

Mae John ddyn 35 oed sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol lleol. Mae John yn sengl ac yn byw mewn Llety Byw â Chymorth - Cefnogi Pobl.

Bu John dan ofal amryw Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol mewn ardaloedd eraill o'r DU, fodd bynnag, daeth o fewn y gwasanaeth lleol hwn yn ystod haf 2019, ar ôl iddo symud i Ynys Môn yn dilyn ei dderbyn i'r Uned Iechyd Meddwl agosaf.

Mae John yn dioddef Anhwylder Personoliaeth Ansefydlog yn Emosiynol (EUPD), sydd hefyd yn creu trafferthion iddo o ran iselder a gorbryder. Ers blynyddoedd lawer, mae John wedi brwydro â dibyniaeth ar alcohol, ond ar ôl ei dderbyn yn wirfoddol i Ganolfan Ddadwenwyno yng Ngogledd Cymru yn Ionawr 2020, ynghyd â chymorth gan y Tîm Camddefnyddio Sylweddau Lleol a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, mae John wedi llwyddo i roi'r gorau i alcohol ers ei dderbyn i'r Ysbyty.



DRAFT

Mae clywed lleisiau'n symptom cyffredin o EUPD, yn enwedig o ran unigolion sydd wedi profi trawma yn y gorffennol - sy'n wir yn achos John. Mae John yn clywed y lleisiau'n ddyddiol, yn enwedig gyda'r nos, sy'n ei gadw'n effro, a phrin yw'r nosweithiau iddo gael mwy nag awr o gwsg. Mae'r lleisiau a glywir gan John yn annifyr, yn ymosodol ac yn ymwthiol tuag at John, gan ddweud wrtho'n rheolaidd i redeg i ffwrdd a lladd ei hun. Yn ychwanegol i hyn, mae'r lleisiau'n dweud wrth John ei fod yn werth dim, nad oes unrhyw un yn malio amdano.

Roedd perthynas John â'r gwasanaethau cymorth yn rhan fawr o'i fywyd cyn y cyfnod clo, gan y byddai wrthi bob dydd yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd dan Arweiniad Gwasanaethau, a oedd yn cynnwys cerdded, e-feicio, grwpiau lles, y Bartneriaeth Awyr Agored a hyd yn oed gweithgareddau o dan do. Roedd hyn yn rhoi sefydlogrwydd, yn rhoi trefn ar ei amser, a'r cyfle i drafod unrhyw bryderon a fyddai ganddo â gweithwyr cymorth (y tu allan i sesiynau cymorth). Roedd hefyd yn rhoi cyfle iddo gyfarfod a chymdeithasu ag unigolion eraill sy'n deall yr hyn y mae'n ei ddioddef.

I ddechrau, roedd y syniad o gyfnod clo yn rhywbeth brawychus iawn i John. Roedd yn teimlo bod ei rwydwaith cymorth wedi'u dynnu oddi arno'n gyfan gwbl, ac roedd yn pryderu y byddai'n colli'r holl gynnydd yr oedd wedi gweithio'n galed iawn i'w gyflawni, ac y byddai'n dirywio hyd yn oed ymhellach.

I sicrhau bod John yn dal i deimlo ei fod yn cael cymorth, cytunodd y Cyngor ar gynllun yr oeddem yn gobeithio y byddai'n dynwared ei arferion i ryw raddau. Cytunwyd y byddai'n cael galwad ffôn bob bore dydd Llun, y byddai'n cymryd rhan mewn Cwis Zoom a gynhaliwyd gennym ar ddydd Mercher, ac ar ddydd Gwener, byddem yn cynnal galwad fideo un i un â'n gilydd dros Zoom.

Ar y dyddiau nad oedd John mewn cysylltiad â'r Cyngor, byddai mewn cysylltiad â Nyrs Seiciatrig Gymunedol (CPN), yr oedd un yn Gydlynydd Gofal ar ei gyfer - a'r llall yn arbenigwr mewn gweithio ag unigolion sy'n clywed lleisiau.

Fel yr aethom yn bellach i mewn i'r cyfnod clo, roedd John yn fwy ymwybodol ac ystyriol o'r trafferthion yr oedd unigolion eraill efallai'n eu profi, fel colli eu swyddi ac ati. Gan fod John yn arfer bod yn gogydd, cynigiodd y gallai gynnal sesiynau coginio dros Zoom, byddai'n gwneud hyn ar brynhawn dydd Mercher weithiau yn lle'r Cwis, er mwyn cynnig rhywbeth gwahanol i'r unigolion a oedd yn cymryd rhan. Byddai John yn paratoi a choginio pryd iach am bris rhesymol, tra bo pawb yn gwylio a chymryd nodiadau, a byddai'n siarad trwy'r broses, gam wrth gam, ac yn ateb unrhyw gwestiynau gan yr unigolion a oedd yn cymryd rhan. Roedd y sesiynau'n ddymunol iawn ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan yr unigolion eraill a gefnogir gennym.

Ar ôl dechrau codi'r cyfyngiadau yng Nghymru, mae John, a ffrind a wnaeth wrth fynychu ein Grwpiau sydd Dan Arweiniad Gwasanaethau, wedi dechrau mwynhau cerdded mynyddoedd Eryri. Bydd John yn mynd am o leiaf un heic bob wythnos, gan ei fod yn dweud mai'r mynyddoedd yw ei "Fan Diogel". Cafodd John ei ysbrydoli i barhau â'i deithiau cerdded yn y mynyddoedd oherwydd cymaint yr oedd yn mwynhau Grŵp Cerdded y Bartneriaeth Awyr Agored cyn y cyfnod clo.

Byddwn yn aml yn gofyn i John sut y mae'n llwyddo i ymdopi â straen y lleisiau wrth geisio cadw oddi ar alcohol. Mae John yn dweud bob amser, heb y cymorth y mae'n ei dderbyn gennym ni ac eraill, a chael byw yn y Llety Byw â Chymorth, byddai wedi rhoi'r gorau iddi ers talwm, ac mai'r cymorth a dderbynnir ganddo yw un o'r prif resymau y mae'n dal i allu ymdopi.

## Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | 92.31% | Gwyrdd | Tuedd ↑ | 19/20 - 91.30% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | 50% | Gwyrdd | Tuedd → | 19/20 - 50% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | 60.4% | Gwyrdd | Tuedd ↓ | 19/20 - 63.1% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | 15.36 | Gwyrdd | Tuedd ↑ | 19/20 - 17.57 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 98.2% | Gwyrdd | Tuedd ↑ | 19/20 - 98.0% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | 86.87% | Melyn | Tuedd ↓ | 19/20 - 89.62% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | 12.3% | Melyn | Tuedd ↓ | 19/20 - 8.39% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 32.0% | Coch | Tuedd ↓ | 19/20 - 12.75% |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | 258 | Gwyrdd | Tuedd ↓ | 19/20 - 224 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 99.56% | Gwyrdd | Tuedd ↑ | 19/20 - 98.88% |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 87.74% | Melyn | Tuedd ↑ | 19/20 - 86.30% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | 74.74% | Gwyrdd | Tuedd ↓ | 19/20 - 74.91% |

32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

Gwyrdd

75.47%

Tuedd ↓

19/20 - 77.70%

33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Gwyrdd

169

Tuedd ↓

19/20 - 159.58

35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)

Coch

45.6

Tuedd ↓

19/20 - 21.9

36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag

Coch

1.98%

Tuedd ↓

19/20 - 1.42%

19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed

COVID-19

34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod

COVID-19

DRAFT

Mae'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer Amcan Llesiant 2 wedi dangos perfformiad cadarnhaol hefyd, gyda dim ond tri o'r 16 o ddangosyddion (19%) a gafodd eu monitro yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol. Roedd 62.5% o'r dangosyddion yn uwch na'u targed, ac 19% o'r dangosyddion o fewn 5% o'u targedau. Dim ond dau o'r dangosyddion oedd heb eu casglu o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, sy'n golygu bod modd cael argraff well o'r perfformiad cyffredinol yn erbyn y targed hwn.

Mae pob un o'r dangosyddion o fewn y Gwasanaethau Oedolion (dangosyddion 20 - 24) wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn, gyda phob un o'r 4 dangosydd yn uwch na'r targed. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol iawn i wasanaeth a fu dan gryn bwysau ar y rheng flaen, yn delio â'r pandemig Covid-19 ac yn ceisio cadw preswylwyr yn ddiogel wrth ymgymryd â dyletswyddau dyddiol.

O ran y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, y mae 83% o'i ddangosyddion yn uwch neu o fewn 5% o'u targedau, ynghyd â'r Gwasanaeth Tai, y mae 60% o'i dargedau yn uwch na'r targed, dylid bod yn falch o'u hymdrechion eleni. Fodd bynnag, o fewn y gwasanaethau hyn y mae'r tri dangosydd a oedd yn goch yn erbyn y targedau, yn ogystal â 90% o'r dangosyddion a oedd yn dirywio o un flwyddyn i'r llall o ran yr amcan hwn.

Roedd dangosydd 27 uchod, sef canran yr atgyfeiriadau ar gyfer plant sy'n ailatgyfeiriadau o fewn 12 mis, yn goch, gyda pherfformiad o 32% yn erbyn targed o 10%. Ar ôl adolygu ffeiliau achos y plant sydd wedi'u hail-hasesu yn ystod y flwyddyn, cafwyd bod pob un ohonynt wedi'u hailatgyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth. Cafodd pob un ei ailatgyfeirio oherwydd rhesymau a sefyllfaoedd newydd a oedd wedi codi na ellid eu rhagweld neu atal, ac felly ni chynlluniwyd unrhyw weithredu pellach.

Yr ail ddangosydd coch oedd dangosydd 35 uchod, sef nifer gyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod), gyda pherfformiad o 45.6 diwrnod yn erbyn targed o 26 diwrnod. Oherwydd sefyllfa'r pandemig, ni fu'n

bosibl gosod ein Stoc Tai cyngor ar yr un lefel ag y byddid wedi'i gwneud fel arfer, yn bennaf oherwydd y gofyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth coronafeirws a phrotocolau o ran cadw pellter cymdeithasol. Trwy gydol y flwyddyn, cafodd cyfnodau clo Covid-19 effaith negyddol ar y dangosydd hwn, a gwnaed popeth y gellid fod wedi'i wneud i wella'r perfformiad pan roedd yn ddiogel i wneud hynny.

O ran y trydydd dangosydd coch, ar un olaf, sef dangosydd 36 uchod, mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn cysylltu'n uniongyrchol â'r dangosydd a drafodwyd yn flaenorol. Mae'r oedi o ran gosod unedau llety y mae modd eu gosod yn effeithio rhent, sy'n arwain at golli mwy o incwm rhent. Gyda chodi cyfyngiadau Covid-19 yn raddol, credir y bydd y perfformiad hwn yn gwella yn ystod 2021/22.

Gan y gwelwyd fod perfformiad 62.5% o'r dangosyddion a oedd wedi'u monitro fel rhan o'r amcan hwn wedi dirywio o gymharu â'r llynedd, am amryw resymau, y soniwyd am rai ohonynt uchod, byddwn yn monitro'r dangosyddion hyn yn arbennig er mwyn sicrhau y caiff perfformiad ei gynnal neu ei wella yn 2021/22.

DRAFT

## Amcan 3: Gweithio mewn partneriaeth â’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

### Datblygu a Hyrwyddo

*Yr hyn yr ydym wedi’i wneud*

Yn unfrydol, cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd yn y Cyngor Llawn ar 8 Medi 2020, gan ymrwymo'r awdurdod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Yn gynnar yn 2020 (cyn y pandemig), gweithiodd Grŵp Tasg a Gorffen o swyddogion i baratoi gwaelodlin o gamau gweithredu a gafwyd hyd yn hyn i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol), gyda'r bwriad o lywio cynllun gweithredu drafft. Er gwaethaf hyn, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ddisgrifiadol iawn o ran gweithgaredd, heb unrhyw ddull cyson o bennu, rhagfynegi na meintioli'r effaith ar leihau allyriadau carbon (yn erbyn gwaelodlin ôl troed carbon corfforaethol). Yn ogystal, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dargedau lleihau carbon y cytunwyd arnynt yn ffurfiol.

Ers i’r gwaith hwn gychwyn, mae nifer o arferion gwaith traddodiadol a ‘sefyllfa arferol’ wedi’u newid er diogelu staff a darparu gwasanaeth (e.e. mae cyfarfodydd rhithwir wedi lleihau’r teithio cyffredinol sy’n gysylltiedig â gwaith, gweithio o adref ac ati). Bellach, mae'n rhaid cydnabod bod y rhain yn rhan o'r waelodlin, wedi’u meithrin a'u hymgorffori wrth i ni ddechrau ar y cyfnod adfer ôl-bandemig.

Mae tystiolaeth glir bod gwahanol feysydd gwasanaeth yn bwrw ymlaen gyda llu o weithgareddau, gan ymateb yn gadarnhaol i'r angen i leihau ôl troed carbon yr awdurdod. Er gwaethaf hyn, ar hyn o bryd, nid oes gallu ac arbenigedd corfforaethol pwrpasol i arwain a llywio'r newid trawsnewidiol angenrheidiol y mae angen ledled y sefydliad.

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2021 ei fod yn

- Cefnogi a chymeradwyo gwaith datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd fel bod yr awdurdod yn gallu croesi’r bont i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.
- Defnydd o gronfa gyfyngedig wrth gefn o £400,000 i greu capasiti/arbenigedd penodol i arwain y gwaith o ddatblygu a chydlynu camau cychwynnol datblygu a darparu.
- Recriwtio Rheolwr Rhaglen newid hinsawdd gorfforaethol i arwain ar ddatblygu a chyflawni.
- Sefydlu Gweithgor Newid yn yr Hinsawdd (gyda chynrychiolaeth wleidyddol) – grŵp cynghori, nad yw'n gwneud penderfyniadau, i wneud argymhellion a cheisiadau.
- Penodi Hyrwyddwr Newid Hinsawdd ar y Pwyllgor Gwaith, a
- Penodi’r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn Hyrwyddwr Newid Hinsawdd y Pwyllgor Gwaith.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yma

Mae Cam 1 o’r rhaglen Re:fit o fewn y Cyngor yn agos i’w gwblhau erbyn hyn. Bydd y gwaith yn cynorthwyo i leihau faint o garbon a gynhyrchir gan y Cyngor yn flynyddol. Mae’r gwaith hwn yn un o sawl ffrwd waith o fewn ein Cynllun Gweithredu ar Newid Hinsawdd, a chyflwynwyd cais i Salix am gyllid ychwanegol o £3.1m.

Mae cerbydau trydan ac LPG wedi cymryd lle hen gerbydau fflyd y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor:

- 7 cerbyd trydan,
- 77 cerbyd LPG, a
- 107 cerbyd diesel.

Gosodwyd mannau gwefru newydd ar gyfer cerbydau yng Nghanolfan Byron, ac archebwyd 4 cerbyd trydan arall. Darparwyd grant o £300k hefyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod pwyntiau gwefru ar gyfer fflyd y Cyngor o gerbydau trydan.

Mae’r gwaith o ran y mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ym maes Parcio a Theithio Llanfairpwll yn datblygu’n dda, a’r nod yw eu gosod yn 2022. Mae cynlluniau yn yr arfaeth hefyd i osod mannau gwefru EV cyflym ar draws y pum tref ledled yr ynys, gyda chyflwyno cais am gyllid yn ystod y flwyddyn.

Buom yn datblygu llwybrau cerdded a beicio yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ystod y flwyddyn. Mae’r cyfnod ymgynghori cyntaf wedi cau, a chafwyd cyfanswm o 781 o sylwadau a chyfanswm o 2278 o ‘gytundebau’. Yn gynharach eleni, cynhaliodd Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Ynys Môn sesiynau rhithwir gyda grwpiau o breswylwyr ar Ynys Môn i drafod cyfleoedd cerdded a beicio ar yr ynys, ac i nodi'r rhwystrau sy'n wynebu preswylwyr ar hyn o bryd o ran ceisio osgoi defnyddio'r car i fynd ar daith fer.

Wrth i gam 2 o fap CommonPlace Cyngor Ynys Môn gael ei lansio, mae Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Ynys Môn wedi cynnal 5 sesiwn rhithwir gyda'r nos gyda thrigolion a grwpiau o randdeiliaid lleol ym mis Gorffennaf ac Awst 2021. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr drafod a rhannu eu syniadau am y llwybrau newydd arfaethedig.

Rydym yn parhau i weithio tuag at ailgylchu 70% o’n gwastraffu domestig. Mae’n anochel bod y pandemig wedi arwain at gyfradd ailgylchu is na’r disgwyl o 62.96% ar gyfer 2020/21. Mae nifer o resymau dros y gostyngiad hwn mewn perfformiad o’i gymharu â’r blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm o hyd yw’r pandemig Covid-19, a’r ffaith bod llai’n defnyddio’n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig, ynghyd â’r cynnydd mewn gwastraff o finiau du domestig oherwydd bod mwy o bobl yn gweithio o adref.

Cyflwynwyd system archebu ar-lein/dros y ffôn pan fu modd i’r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig ailagor, ond mae’r galw ar y system archebu wedi parhau i fod yn isel, gyda channoedd o’r slotiau a oedd ar gael heb eu llenwi bob mis. Mae’r gostyngiad o ran y cyfnodau yr oedd y canolfannau ar agor, ynghyd â lefel isel y galw yn golygu y derbynnir llai o dunelli o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn ein Canolfannau Ailgylchu, sydd o ganlyniad wedi effeithio ein perfformiad. Ymhlith y rhesymau eraill y mae anhawster o ran cael mannau sy’n ailgylchu rhai mathau o ddeunyddiau, gan gynnwys carpedi, coed a matresi.

I liniaru’r tanberfformiad cyfredol, sefydlwyd grŵp llywio newydd sy’n cynnwys uwch swyddogion, uwch wleidyddion a phartneriaid o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru. Y nod yw gwerthuso’r arferion gwaith cyfredol a nodi’r ffordd orau o wella perfformiad mewn perthynas â’r dangosydd hwn, ynghyd â gweithio tuag at y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2025. Caiff y gwaith hwn ei fonitro fel rhan o’r adroddiadau ar y Cerdyn Sgorio, a gellir cael rhagor o fanylion ynddynt trwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn dal i wneud cynnydd da o ran datblygu cynlluniau lliniaru llifogydd mawr ar safleoedd yn ardaloedd

- Dwyran
- Amlwch
- Caergybi
- Porthaethwy
- Llanfairpwll



DRAFT

- Y Fali a
- Thraeth Coch

yn ogystal â gwaith ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynllun lliniaru llifogydd Llangefni. Rydym hefyd wedi cyflawni gwaith gwerth dros £700,000 o arian grantiau yn bennaf ar gynlluniau draenio ar raddfa fach ar draws yr ynys.

## Trawsnewid

### *Yr hyn yr ydym wedi'i wneud*

Un maes sydd wedi ffynnu yn ystod y pandemig yw nifer y gwirfoddolwyr sy'n barod i gymryd rhan a chynorthwyo pobl yn y gymuned leol.

Mae'r pandemig wedi amlygu bod gan Ynys Môn bobl sy'n fwy na pharod i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu ac i amlygu asedau o fewn y gymuned nad oeddynt efallai wedi meddwl amdanynt erioed o'r blaen.

Mae'r parodrwydd hwn o fewn y gymuned wedi cyfrannu at yr agenda llunio lle ar yr Ynys. Rhai o'r cyflawniadau allweddol yn ystod y cyfod yw:

- Integreiddio monitro a gwerthuso – cydweddu blaenoriaethau o ran adrodd.
- Sefydlu Timau Cymorth Ardal a Chynlluniau Tro Da fel grwpiau a fu'n gyfrwng i gysylltu â'r rheiny na fyddent fel arfer yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o ymgynghoriad.
- Daeth defnyddio technoleg ddigidol a dychwelyd holiaduron ar-lein yn fodd effeithiol o gyrraedd pobl newydd.
- Parodrwydd Sefydliadau Trydydd Sector i rannu gwybodaeth a chyfrannu at y mapio lle bu diffyg o ran hyn yn flaenorol.
- Bu modd mapio asedau'n llawer cynt gan yr oedd cynigion o help ar lefel gymunedol wedi caniatáu i ni ganfod pobl allweddol, ynghyd ag adeiladau, gwasanaethau a rhwydweithiau yn llawer cynt na thrwy ddulliau mapio gwreiddiol.
- Mynediad i wybodaeth, rhannu gwybodaeth a lleihau biwrocratiaeth.
- Gallu i ganfod prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad/prosiectau tasg a gorffen, i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol - Cynlluniau Tro Da, Neuaddau Pentref Rhithwir, pecynnau gweithgareddau, adnoddau gwybodaeth ac ati.
- Gallu i gefnogi a darparu arweiniad i gymunedau allu gofalu am eu hunain.
- Gallu i ganfod yn lle gellir lleihau/addasu gwasanaethau fel y daw cymunedau i fod yn fwy gwydn ac annibynnol.
- Gallu i ymateb i 'anghenion lleol, yn lleol' yn hytrach na disgwyl neu ddibynnu ar ymateb Cenedlaethol/Rhanbarthol.

Bu modd i ni ganfod yn lle mae'r cryfderau yn ein cymunedau yn nhermau darpariaeth gwasanaeth ataliol ac ar lefel isel, fel siopa, danfon meddyginiaethau a bwyd, a defnyddir hyn fel y sail ar gyfer y modd y byddwn yn symud ymlaen i gyfnod o adferiad.

Bu gwaith o ran hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg o fewn swyddogaethau Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden y Cyngor yn anodd eleni o ganlyniad i fwyafrif helaeth o staff a oedd yn gweithio o adref. Fodd bynnag, bu'r staff mewn cysylltiad yn ddyddiol dros y ffôn a 'Teams' ac mewn cyfarfodydd â defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid, ac felly maent yn cael y cyfle i ymarfer eu Cymraeg wrth ddelio â busnes o ddydd i ddydd er mwyn defnyddio cymaint o Gymraeg ag y bo modd. Mae staff yn dal i gael cymorth o fewn y 3 gwasanaeth cymorth dwys (Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden) ac mae'r canlynol yn grynodeb o'r cyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw:



DRAFT

- Cynhaliwyd sesiynau sgwrsio ‘Panad a Sgwrs’ dros Microsoft Teams o fewn y swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd, pan fu modd gwneud hynny;
- Mae sgiliau iaith staff yn parhau i gael eu datblygu trwy hyfforddiant rhithwir;
- Cyfarfodydd staff sy’n caniatáu i staff gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Mae staff yn cael y cyfle i ddewis iaith yn ystod y broses Arfarnu Flynyddol;
- Mae system ‘Bydi’ ar waith o fewn y Swyddogaeth Hamdden, fodd bynnag, gyda’r Canolfannau Hamdden ar gau am ran helaeth o’r flwyddyn, cafwyd ychydig iawn o gyfleoedd i fwrw ymlaen â’r cynllun;
- Mae’r Gwasanaeth Tai wedi ymrwymo i fentora staff a hybu’r defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle ar gyfer staff sy’n dysgu Cymraeg neu’n dymuno gwella eu Cymraeg;
- Cofnodi nifer yr adroddiadau arfarnu blynyddol a ysgrifennir yn y Gymraeg, ynghyd â niferoedd y cyfweliadau arfarnu a gynhelir yn y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Tai.

Ar draws y Cyngor, gwelwyd cynnydd mewn sawl maes dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymgorffori gofynion Dogfen Gyngor Arferion Da Comisiynydd y Gymraeg (2020) o ran yr iaith Gymraeg yn y templed a’r canllawiau corfforaethol ar gyfer Asesu Effaith.
- Derbyn dyfarniad cadarnhaol yn dilyn gwaith monitro gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn ymarfer siopwr cudd yng nghyswllt cydymffurfiaeth â’r safonau.
- Meddalwedd cwbl ddwyieithog cymorth technoleg ‘Freshservice’ wedi’i bwrcasu ar gyfer logio ceisiadau am wasanaeth o fewn TGCh.
- Rhoddwyd enwau Cymraeg i’r fflyd o lorïau graeanu newydd
- Derbyniwyd canmoliaeth ysgrifenedig gan Farnwr Ardal am y nifer uchel o weithwyr cymdeithasol sy’n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg

Ni fu modd i ni roi Porth Cwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae’n anelu at roi gwasanaeth hwylus ac o ansawdd uchel i gwsmeriaid, a fydd yn cynnig cyfleusterau hunanwasanaeth ac yn cynorthwyo gyda biliau electronig. Cafodd y prosiect hwn ei oedi o ganlyniad i amryw resymau, ond yn bennaf oherwydd materion o ran cysylltu â System Rheoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM) y Cyngor sydd wedi gohirio’r prosiect. Byddwn yn ymdrechu i roi system ar waith cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddefnyddio technolegau digidol y we, ynghyd â systemau ffôn i wneud newidiadau yn ôl dymuniadau’r cwsmer.

Bu’r pandemig Covid-19 yn anodd, yn enwedig o ran ein cyfleusterau Hamdden, gan y bu rhaid eu cau am gyfnodau hir iawn o ganlyniad i Reoliadau Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Hyd yn oed pan gawsant ganiatâd i agor roedd hynny ar gyfer nifer lai o gwsmeriaid, a arweiniodd at anawsterau eraill fel sut i agor yn ddiogel, a pharhau i fod ar agor. Derbyniwyd grant adferiad o £67k gan Chwaraeon Cymru, sydd wedi cefnogi nifer o welliannau i gyfleusterau o ran gwasanaethau i gwsmeriaid.

Bydd gosod boeleri a systemau gwresogi newydd yng Nghanolfan Hamdden Amlwch yn ystod y flwyddyn yn helpu i leihau faint o ynni a ddefnyddir gan y ganolfan. Diogelwyd grant gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i brynu beiciau troelli a beiciau dŵr/’Aqua’. Rydym hefyd wedi darparu cymorth parhaus i drefi Caergybi ac Amlwch ddatblygu caeau 3G. Roedd y cae 3G newydd ym Mharc Caergybi wedi diogelu caniatâd cynllunio a £135k mewn cymorth ariannol gan Chwaraeon Cymru. Mae’r cae wedi’i agor yn swyddogol bellach ar gyfer ei ddefnyddio gan y gymuned lleol.

Mae'r gwaith a wnaed cyn Covid ar ein taith Drawsnewid Ddigidol wedi'i ddefnyddio'n helaeth yn ddyddiol gan gwsmeriaid nad oeddynt mwyach yn gallu ymweld â Swyddfeydd y Cyngor, gan eu bod ar gau o ganlyniad i'r pandemig.

Roedd y cynnydd o ran y defnydd o ffurflenni ar-lein yn sylweddol, gyda'r niferoedd yn fwy na phum gwaith y rheiny cyn Covid, sef cynnydd o 10.8k i 58k a dderbyniwyd trwy AppMôn a'r wefan. O ran gwefan y Cyngor hefyd, gwelwyd dros ddwbl nifer yr ymwelwyr o gymharu â hynny yn 2019/20, a 4 gwaith y nifer a ymwelodd â'r wefan yn 2018/19.

Mae'r ffigurau hyn yn profi bod y gwaith a wneir o werth i'n cwsmeriaid, a bydd gwaith yn parhau i wella ein Sianelau Digidol dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'r newid i dechnoleg ddigidol yn parhau i gyflymu o fewn ysgolion hefyd. Gwnaed gwaith yn ystod y flwyddyn i gynyddu'r gymhareb o ran cyfrifiaduron i ddisgyblion mewn ysgolion, gan ddefnyddio grant HWB gan Lywodraeth Cymru. Derbyniodd bob ysgol ragor o gyfrifiaduron Chromebook.

Cafodd y cynllun gwaith ar gyfer defnyddio grant HWB ei gyflymu yn ystod yr haf o ganlyniad i ymosodiad seibr ar weinyddion yr ysgolion uwchradd. Diolch byth, o ganlyniad i ddadansoddiad fforensig o'r ymosodiad seibr, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth y cafodd unrhyw wybodaeth bersonol ei dwyn neu fod systemau TGCh wedi'u peryglu.

Fodd bynnag, mae'r digwyddiad hwn wedi ein hannog i fwrw ymlaen â gwaith a gynlluniwyd yn gynt – fel rhan o raglen HWB Llywodraeth Cymru – o ran uwchraddio systemau technoleg gwybodaeth yn ein hysgolion uwchradd, arbennig a chynradd.

Hefyd, caiff systemau data eu trosglwyddo i wasanaethau cwmwl HWB, gyda'r disgwyl y bydd y mwyafrif ohonynt ar gael i athrawon a disgyblion erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi.

Bydd cyflymu'r gwaith o weithredu a mabwysiadu'r systemau hyn - sy'n darged ar gyfer pob ysgol yng Nghymru ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru - yn gweld Ynys Môn yn cyflawni un o'i nodau strategol yn llawer cynt nag a gynlluniwyd.

Fodd bynnag, am y tro, mae digwyddiad yr ymosodiad seibr wedi arwain at ohirio'r gwaith i uwchraddio'r cyflymderau lawrlwytho band eang i 300Mb/s, ond mae'r cynlluniau yn parhau i fod ar y trywydd iawn i roi hyn ar waith yn 2022.

Yn ystod y flwyddyn, fe aethom ati i ail-dendro'r contract prydau ysgol ar gyfer ysgolion yr Ynys. Dyfarnwyd y contract pum mlynedd, gwerth £8m, i Chartwells, a fydd yn gweld y cwmni arbenigol arlwyo ysgolion yn bwydo dros 9,500 o ddisgyblion o fis Medi ymlaen. Mae ail-dendro'r contract wedi sicrhau arbedion ariannol, a bydd rhai o'r arbedion hynny'n cael eu defnyddio gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor i roi cymhorthdal pellach tuag at gostau prydau ysgol gynradd.

O 1 Medi 2021, bydd gostyngiad o 30c yng nghost prydau ysgol gynradd i £2.20. Eglurodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Llinos Medi, "Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn anodd iawn i nifer o deuluoedd, yn enwedig y rhai hynny ar incwm isel. Mae ail-dendro'r contract prydau ysgol wedi rhoi cyfle i'n Pwyllgor Gwaith helpu teuluoedd drwy leihau costau prydau ysgol gynradd."

"Bydd y penderfyniad yn elwa'r miloedd o rieni a fydd yn talu am brydau ysgol eu plant, ynghyd ag eraill sy'n talu'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn, gan y bydd y buddion o ran arbedion refeniw yn cael eu trosglwyddo iddyn nhw. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y plant sy'n dewis prydau ysgol dros y



DRAFT

blynyddoedd diwethaf, a’r gobaith yw y bydd hyn hefyd yn annog mwy i ddewis prydau ysgol yn ein hysgolion cynradd.”

### Astudiaeth Achos 3 – Technoleg Lliniaru Llifogydd Newydd

Mae Biwmares wedi wynebu sawl digwyddiad llifogydd dros nifer o flynyddoedd. Yn dilyn llifogydd i 17 eiddo yn 2004, cwblhawyd cynllun lleddfu llifogydd ym mis Mawrth 2007. Gwnaed rhagor o welliannau yn dilyn ail ddigwyddiad lifogydd mawr ym mis Medi 2007, gyda llifogydd yn effeithio’r tu mewn i 6 eiddo. Yn Rhagfyr 2012, er na chofnodwyd unrhyw adroddiadau o lifogydd y tu mewn i eiddo, caewyd yr A545 o ganlyniad i lifogydd gan achosi gwyriadau teithio a chryn dipyn o aflonyddwch i drigolion a oedd yn teithio yn ôl a blaen i Fiwmares.

Cafwyd y digwyddiad diweddaraf o lifogydd ym mis Tachwedd 2017, ar ôl i’r sgrin brigau, sef math o amddiffyniad sydd wedi’i ddylunio i atal malurion rhag atal llif yr afon, gael ei rhwystro. Er ymdrechion swyddogion llifogydd hyfforddedig i’w chlirio â llaw, roedd lefelau’r dŵr a oedd yn codi’n gyflym wedi’i wneud yn rhy beryglus iddynt barhau, ac fe’u gorfodwyd i roi’r gorau i’w hymdrechion a symud i le diogel. Fe gafodd y sgrin ei rhwystro wedyn, gyda dŵr yn trechu’r strwythur o’i chwmpas ac yn mynd i mewn i eiddo preswyl ac i’r ffordd.

Arweiniodd y digwyddiad hwn at wneud gwaith ymchwil i ganfod datrysiad addas a fyddai’n clirio’r malurion ac yn sicrhau diogelwch ein preswylwyr a’n swyddogion arbenigol. Ystyriwyd gennym hefyd bod ymchwil i’r newid yn yr hinsawdd yn rhagweld cynnydd o ran glawiad, ac felly’r potensial am ragor o lifogydd yn y dyfodol pe na bai unrhyw beth yn cael ei wneud.

Trwy weithio â Waterco Ltd, diogelwyd cyllid grant gennym gan Lywodraeth Cymru i osod sgrin awtomatig i glirio malurion.

Mae sgrin awtomatig newydd ar gyfer hidlo malurion wedi’i gosod ym Mill Lane, Biwmares er mwyn helpu i amddiffyn yr ardal rhag y perygl o lifogydd. Y sgrin yw’r cyntaf o’i math i’w gosod yng Nghymru a bydd yn lleihau’r risg o ddraeniau’n blocio trwy dynnu malurion o’r dŵr.

Mae’r sgrin yn gweithredu fel cludfelt gan godi malurion sydd wedi casglu yn y gwaelod i fyny a dros y top i’w gollwng ar blatfform, er mwyn eu clirio’n ddiogel ac yn rhwydd y diwrnod wedyn. Mae’r sgrin yn cychwyn yn awtomatig pan fydd yn canfod bod lefel y dŵr yn codi, ac yn stopio pan fydd lefelau’r dŵr wedi dychwelyd i lefel arferol.

Ymgymerwyd â gwaith hefyd i adnewyddu’r sgrin wreiddiol a gosod sgrin osgoi a ddefnyddir yn ystod cyfnodau o lifau dŵr eithafol.

Eglurodd y Cynghorydd Bob Parry, deilydd portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff y Cyngor, “Gyda’r bygythiad cynyddol o newid hinsawdd a digwyddiadau cysylltiedig â thywydd eithafol, mae’n hanfodol ein bod yn rhoi amddiffynfeydd llifogydd addas yn eu lle er mwyn helpu i warchod ein cymunedau lleol.”

Ychwanegodd, “Rydym yn gweithio’n barhaus â phartneriaid ar gynlluniau newydd ac arloesol er mwyn ceisio lleihau risgiau o ran llifogydd ar yr Ynys.”

Gellir cael rhagor o wybodaeth [yma](yma).



**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**

| Dangosydd | Gwerth | Statws | Tuedd | 19/20 |
|---|---|---|---|---|
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | 92.0% | Melyn | ↓ | 19/20 - 93.79% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | 62.96% | Coch | ↓ | 19/20 - 67.26% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 0.95 | Gwyrdd | ↑ | 19/20 - 0.96 |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | 214kg | Gwyrdd | ↓ | 19/20 - 206kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | 79% | Coch | ↓ | 19/20 - 90% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | 58% | Coch | ↓ | 19/20 - 78% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 74% | Ambr | → | 19/20 - 74% |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | 4.6% | Ambr | ↓ | 19/20 - 4% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael | 3.8% | Gwyrdd | → | 19/20 - 3.8% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael | 8.5% | Gwyrdd | ↓ | 19/20 - 8.2% |

Mae'r dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig ag amcan 3 wedi gweld perfformiad cymysg o ran eu targedau, gyda 40% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed ar gyfer y flwyddyn, roedd 10% o fewn y lefel oddefiant o 5% o'u targed, roedd 30% rhwng 5-10% o'u targedau, a'r 30% a oedd yn weddill yn goch yn erbyn eu targed.

Fodd bynnag, mae'n fater o bryder bod 70% o'r dangosyddion a gaiff eu monitro wedi dirywio o un flwyddyn i'r llall, er y dylid nodi y cafodd rhai o'r dangosyddion eu heffeithio gan bandemig covid-19, fel y trafodir isod. Fodd bynnag, mae angen monitro'r sefyllfa yn ystod 2021/22 i sicrhau y gellir gwneud rhagor o welliannau, yn enwedig o ran y Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd sy'n gyfrifol am yr holl ddangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd fel rhan o'r amcan hwn.

Y dangosydd coch cyntaf, a drafodwyd yn yr adroddiad uchod, yw dangosydd 38, sef canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, gyda pherfformiad o 62.96% yn erbyn targed uchelgeisiol o 70%. Mae'r dangosydd hwn yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged hirdymor o ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70% o'r gwastraff erbyn 2025, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru. Ond mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar berfformiad y dangosydd hwn oherwydd cau'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig ddechrau'r flwyddyn.

Cyflwynwyd system archebu ar-lein/dros y ffôn pan fu modd i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig ailagor, ond mae'r galw ar y system archebu wedi parhau i fod yn isel, gyda channoedd o'r slotiau a oedd ar gael heb eu llenwi bob mis. Mae'r gostyngiad o ran y cyfnodau yr oedd y canolfannau ar agor, ynghyd â lefel isel y galw yn golygu y derbynnir llai o dunelli o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn ein Canolfannau Ailgylchu, sydd o ganlyniad wedi effeithio ein perfformiad.

Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r contractwr glanhau strydoedd wedi cael problemau o ran prosesu rhai elfennau o'r deunydd y gellir ei ailgylchu o hynny sy'n cael ei ysgubo oddi ar ffyrdd, yr oedd wedi'i dderbyn gan y Cyngor yn ystod y pandemig Covid-19. Mae hyn yn golygu y bu oedi o ran prosesu/cyfrif y tunelli o ddeunydd y gellir ei ailgylchu y byddent fel arfer yn cael eu hychwanegu at gyfanswm cyffredinol y cyngor (cafodd hyn effaith ar 3ydd a 4ydd chwarter 2020/21).

Mae swyddogion wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r contractwr glanhau strydoedd i sicrhau bod deunydd yn cael ei brosesu'n ddi-oed, ac maent wedi sefydlu datrysiad wrth gefn. Mae swyddogion mewn trafodaethau â Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd, i sicrhau bod pob hawliad ar gyfer tunelli o ddeunydd y gellir eu hailgylchu yn cael eu cwblhau yn ôl y canllawiau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei fonitro ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer 2021/22.

Dangosydd 41, sef canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd, oedd yr ail ddangosydd coch. Mae'r dangosydd hwn yn un arall a gafodd ei effeithio gan bandemig Covid-19, o ran bod rhaid atal arolygiadau o safleoedd a'r gofynion o ran hysbysu ynghylch ceisiadau. Roedd cyfyngiadau ar ymweliadau â safleodd trwy gydol y flwyddyn, ar gyfer swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio, wedi'i gwneud yn anodd i'r Swyddogaeth Gynllunio berfformio cystal ag y gwnaeth yn y gorffennol. Mae amryw ffactorau eraill wedi cael effaith ar y canlyniad hwn hefyd, gan gynnwys ôl-groniad o geisiadau hanesyddol a swyddi wag o fewn strwythur y Swyddogaeth.

Mae arferion gweithio wedi'u haddasu eisoes, ac fe'u hadolygir, mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw. Bydd cyfleoedd i gryfhau capasiti'r Swyddogaeth Gynllunio, trwy gyflenwi Cynllun Gwella Cynllunio, yn cael eu gyrru yn eu blaenau yn 2021/22.

Dangosydd 43, canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a wrthodwyd, oedd y trydydd dangosydd coch a'r un olaf a gafodd ei fonitro ar gyfer yr amcan hwn, gyda pherfformiad o 58% yn erbyn targed o 65%. Mae'r dangosydd hwn yn delio a niferoedd bach iawn. Mae'n dibynnu ar y math o geisiadau a dderbynnir ynghyd â natur y ceisiadau hynny, ac mae'n anochel y bydd rhai apeliadau cynllunio yn llwyddiannus.

## Perfformiad Ariannol 2020/21

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb byr o berfformiad ariannol y Cyngor dros 2020/21. Am y sefyllfa ariannol fanwl ar gyfer y flwyddyn edrychwch ar Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 sydd ar gael ar ein gwefan.

Bu blwyddyn ariannol 2020/21 yn un na welodd y Cyngor mo'i thebyg o'r blaen, gyda'r pandemig Covid yn cymryd drosodd holl waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac yn cael cryn effaith ar ei sefyllfa ariannol. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, gyda dros £6.104m o gostau ychwanegol a £2.369m o'r incwm a gollwyd yn cael eu talu gan Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Roedd y cymorth ychwanegol hwn, ynghyd â grantiau penodol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi arwain at danwariant o £4.204m (2.96%) yng nghyllideb refeniw'r Cyngor. Mae'r tanwariant wedi cynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor i £11.593m, gwelwyd cynnydd i £4.015m o ran balansau ysgolion, ac roedd y cronfeydd wrth gefn dynodedig yn dod i gyfanswm o £14.079m. Fodd bynnag, dylid nodi bod grantiau a dderbyniwyd yn hwyr yn ystod y flwyddyn ariannol wedi ychwanegu at gronfeydd wrth gefn y cyngor, a chaiff y grantiau hyn eu gwario yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Fel y mae'r wlad yn ymddangos o'r pandemig yn ystod 2021/22, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu er mwyn delio â phroblemau nad oeddynt efallai wedi'u canfod yn ystod y cyfnod clo, sydd yn arbennig o wir am y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn caniatáu i'r Cyngor fynd i'r afael â'r problemau hynny, hyd yn oed os bydd hyn yn gofyn am lefel gwariant y tu hwnt i'r gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22.

**Y Gyllideb Refeniw**

Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i'r Cyngor osod cyllideb ar gyfer ei wariant dydd i ddydd. Gelwir y gyllideb hon y Gyllideb Refeniw, a dyma'r swm o arian y mae'r Cyngor ei angen i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth grantiau mae'n eu derbyn gan y Llywodraeth.

Yn ystod 2020/21, gosodwyd cyllideb refeniw y Cyngor ar £142.1 miliwn (£135.2m yn 2019/20).

Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllidebau ac yn mesur ei berfformiad ariannol trwy gyfrif rheoli, mae hyn yn caniatáu i ni dracio gwariant yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd dros y flwyddyn.

Yn 2020/21, fe wnaeth y Cyfrif Refeniw wario £137.9 miliwn, sef tanwariant o £4.2 miliwn yn erbyn y gwariant a gynlluniwyd o £142.1 miliwn. Yn ystod yr un cyfnod, trwy drawsnewid gwasanaethau a dulliau gwell o weithio, cynhyrchodd y Cyngor £0.244 miliwn mewn arbedion.

Mae effaith tanwariant yn golygu bod cynnydd o £4.2m yn ei gronfa wrth gefn gyffredinol.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2020/21 a'r incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbyn:

| Gwasanaethau | Cyllideb Blynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 53,565 | 50,046 | -1,519 |
| Gwasanaethau Oedolion | 27,160 | 26,927 | -233 |
| Gwasanaethau Plant | 10,971 | 10,258 | -713 |
| Tai | 1,168 | 1,131 | -37 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 15,242 | 14,645 | -597 |
| Rheoleiddio | 4,131 | 3,775 | -356 |
| Trawsnewid | 4,998 | 4,527 | -471 |
| Adnoddau | 3,164 | 2,998 | -166 |
| Busnes y Cyngor a Cyllid Corfforaethol | 21,747 | 21,635 | -112 |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **142,146** | **137,942** | **-4,204** |

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn cael ei weld fel gwariant "unwaith ac am byth" ac mae'n arwain at adeiladu neu wella ein hasedau, fel ein heiddo er enghraifft.

Yn 2020/21, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £17.050 miliwn ar gyfer gwasanaethau heblaw tai, a chymeradwyodd Raglen Gyfalaf o £20.255 miliwn ar gyfer y CRT (Cyfrif Refeniw Tai). Yn ychwanegol, cafodd ymrwymiadau cyfalaf gwerth £12.109 miliwn eu dwyn ymlaen o 2019/20, sy'n dod a'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer gwasanaethau heblaw tai i gyfanswm o £22.336m.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd gwerth £17.057 miliwn yn rhagor o Gynlluniau i'r rhaglen, a ariannir yn bennaf gan Grantiau Cyfalaf ychwanegol. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 i £58.425 miliwn.

Mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd cyson, gan gyflawni cyfradd gyflenwi o 56.7%, a disgwylir y cyflenwir gweddill y cynlluniau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae rhai o'r prosiectau a gwblhawyd yn cynnwys gwariant o £1.5m ar yr Unedau Diwydiannol a agorwyd yn ddiweddar ym Mhenrhos, £232k ar Unedau Diwydiannol Llangefni, £2.3m ar y fflyd casglu gwastraff newydd, a £7.4m ar gaffael eiddo presennol a datblygu eiddo newydd ar gyfer ein Stoc Dai. Gwariwyd cyfuniad o £0.5m ar gynlluniau lliniaru llifogydd ym Miwmares a Phentraeth, ynghyd â £0.7m arall ar waith lliniaru llifogydd llai yn ein cymunedau, gwariwyd £1.6m ar waith ail-wynebu priffyrdd, £0.5m ar ddiogelwch ffyrdd, a £0.5m ar uwchraddio fflyd y Cyngor i gerbydau ecogyfeillgar mwy newydd. Gwariwyd £116k hefyd ar welliannau i Ystafell Ffitrwydd Plas Arthur, yn ogystal â £0.5m ar adeiladau modwlar newydd yn Ysgol y Tywyn ac Ysgol Esceifiog a ddefnyddir i ddarparu gofal plant i blant rhwng 2 ac 11 oed.

Arweiniodd hyn at gyfanswm gwariant o £33.129 miliwn, ychwanegwyd £21.227 miliwn tuag at werth asedau.

## Casgliad

Yn gyffredinol, mewn blwyddyn o gryn newid ac ansicrwydd o ganlyniad i bandemig byd-eang Covid-19, roedd 2020/21 yn gymysg gyda llawer o dristwch yn nhermau'r niferoedd o bobl sydd wedi colli eu bywydau, ynghyd â'r effeithiau ar eu teuluoedd a'u ffrindiau o ganlyniad i Covid-19, ond hefyd cafwyd sawl stori dda o ran sut y daethom ni a'n cymunedau at ein gilydd i ymateb i'r pandemig.

Fel y mae bywyd yn dechrau dod yn fwy normal gyda chodi'r cyfyngiadau'n raddol ar draws Cymru, o ganlyniad i raglen frechu sydd wedi lleihau'r effeithiau ar ein gwasanaethau GIG, mae'n bwysig cofio na fydd bywyd yn dychwelyd i normal ar gyfer llawer o'n haelodau teulu, ffrindiau a chymdogion. Ein nod fydd helpu ein hynys i ddod at ei hun mor gyflym ag y bo modd, gan sicrhau ein bod yn teilwra ein gwasanaethau ac yn buddsoddi ynddynt i sicrhau y gallwn gyflawni'r nod hwn.

Yn y diwedd, bydd gallu dysgu gwersi yn sgil y pandemig hwn yn gam pwysig tuag at fynd i'r afael ag unrhyw argyfwng arall y byddwn efallai'n ei brofi rywbryd eto yn y dyfodol.

Mae cydweithio â'n partneriaid yn ystod yr argyfwng hwn wedi cryfhau'r hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni ar y cyd, ac wedi dangos, trwy weithio gyda'n gilydd, bod modd i ni wella bywydau'r bobl o'n cwmpas ynghyd â'u diogelu.

DRAFT

## Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth am unrhyw elfen o'r ddogfen hon neu os oes gennych sylwadau, cysylltwch â:

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni, Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost:–

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg a gall fod ar gael ar ddisg neu mewn Braille. Mae hi ar gael ar wefan y Cyngor, ynghyd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22:

http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Ceir gwybodaeth bellach hefyd, fel a ganlyn: polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor, a gellir eu gweld yn: www.anglesey.gov.uk

Mae adroddiadau Archwilio ac Arolygon a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael o'u gwefannau unigol, fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.archwilio.cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru: https://arolygiaethgofal.cymru
- Estyn: www.estyn.llyw.cymru

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu os hoffech gael gafael ar ddogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a welir ar frig y dudalen os gwelwch yn dda.



DRAFT

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **18 Hydref, 2021** |
| **Pwnc:** | **Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ceisio enwebiad o blith aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Bob Parry (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu 1 aelod i wasanaethu ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru. |

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

- Mae'r gwaith yn cyfrannu tuag at nod Cynllun y Cyngor o "weithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol."
- Ym mis Medi 2020, cafodd argyfwng hinsawdd ei ddatgan gennym a gwnaethom ymrwymiad i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targedau ail-gylchu uchel ar gyfer Awdurdodau Lleol – mae'r Strategaeth Tuag at Ddim Gwastraff yn galw ar Awdurdodau gyrraedd cyfraddau ail-gylchu o 64% erbyn 2019/20 a 70% erbyn 2024/25.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ddim yn berthnasol.

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Yn ei gyfarfod diwethaf[1], bu i'r Pwyllgor drafod perfformiad Chwarter 1: 2021/22 y Cyngor yn erbyn y dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol. Rhoddwyd sylw i Ddangosydd Perfformiad 32 yn y Sgorfwrdd – Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio sy'n tanberfformio ar hyn o bryd (64.5% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y Chwarter). I liniaru'r tanberfformiad cyfredol, sefydlwyd grŵp llywio – copi o'r cylch gorchwyl ynghlwm (**Atodiad 1**). Mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch Aelodau, uwch swyddogion a phartneriaid o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru. Crynhoir isod amcanion y Grŵp Llywio:

- Gwerthuso'r arferion gwaith cyfredol
- Nodi'r ffordd orau ar gyfer gwella perfformiad mewn perthynas â'r dangosydd perfformiad sy'n tanberfformio a gweithio tuag at y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2025

1.2 Gwelwyd y Pwyllgor Gwaith[2] yn ystod ei drafodaeth ar Fonitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol – Chwarter 1: 2021/22 yn penderfynu fel a ganlyn ynghylch aelodaeth y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru: "[**PENDERFYNWYD**].... enwebu cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i fod yn aelod o'r Grŵp Llywio sydd newydd ei sefydlu ac yn cynnwys CLlLC a WRAP Cymru i edrych mewn manylder ar faterion ailgylchu a gwastraff gwyrdd."

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Dim yn berthnasol yn achos y mater hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried.

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021
[2] Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2021

| |
|---|
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1**: Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# Cyngor Sir Ynys Môn

*Bwrdd Rhaglen Perfformiad ac Effeithlonrwydd*

## Cylch Gorchwyl y Bwrdd

### Cefndir y Prosiect

Datblygwyd y rhaglen Perfformiad ac Effeithlonrwydd gan WRAP a CLlLC fel ffordd o gefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i adnabod a blaenoriaethu strategaethau, polisïau ac ymyraethau allweddol i gyflawni lefelau ailgylchu uchel ac uchelgeisiau Economi Cylchol yn y dull mwyaf cost effeithiol posib.

Bwriedir i'r rhaglen weithio mewn tri cham eang:

- Adroddiad crynodeb sy'n adnabod y perfformiad a chostau ailgylchu presennol ar draws amryw o wasanaethau gwastraff. Gellir cymharu data perfformiad yr awdurdod â data tebyg o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn amlygu'r meysydd gwella posib, yn ogystal â'r risgiau i ddarpariaeth bresennol y gwasanaeth (gorddibyniaeth ar ffrydiau perthnasol, heb gydymffurfio â'r polisi cyfredol neu arfaethedig ac ati).
- Cytundeb ar y cyd ar brosiectau penodol, pwrpasol yn ymwneud â'r meysydd strategaeth neu bolisi a nodwyd yn yr adroddiad crynodeb fel y meysydd a fyddai'n cael yr effaith mwyaf o ran gwella perfformiad neu effeithlonrwydd, neu symud yr awdurdod tuag at uchelgeisiau Economi Cylchol Llywodraeth Cymru.
- Darparu cyfres o opsiynau yn seiliedig ar allbynnau'r prosiectau Cam 2. Bwriad yr allbynnau hyn yw pennu cost a darparu rhagamcan o'r gwelliannau tebygol o ran perfformiad, yn ogystal ag ystyried amserlenni gweithredu. Yna fe all pob awdurdod ddefnyddio'r rhain i benderfynu ar y dull gorau er mwyn perfformio i'r eithaf a sicrhau effeithlonrwydd.

### ***Aelodaeth y Bwrdd***

Awdurdod

- Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd – Y Cynghorydd Bob Parry
- Aelod Cabinet dros Gyllid – Y Cynghorydd Robin Williams
- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Dylan Williams (Dirprwy Brif Weithredwr)
- Pennaeth y Gwasanaeth Gwastraff – Huw Percy
- Pennaeth Rheoli Gwastraff – Meirion Edwards
- Uwch Swyddog Cyllid - Anwen Cowling
- Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth– Gwyndaf Parry

CLlLC

- Craig Mitchell

- Jonathan Roberts
- Emma Shakeshaft

WRAP

- Emma Hallett
- Lisa Chilcott
- Owain Griffiths
- Alex Ross
- Iwan Pierce

## ***Ymrwymiadau'r Bwrdd***

Bydd y Bwrdd yn cynnwys aelodau o'r awdurdod, WRAP CCP a CLlLC. Bwriedir i'r bwrdd fod yn hyblyg, a chynhwysir aelodau dim ond pryd a phan fo hynny'n angenrheidiol yn unol â chylch gwaith eu rolau unigol. Er enghraifft, er na fydd disgwyl i aelodau etholedig ac uwch reolwyr fynychu cyfarfodydd lle mae angen cyfraniad technegol manwl, fe'i cefnogir i ddeall yr hyn sy'n ysgogi'r gwaith er mwyn llywio cynnydd ac asesu allbynnau. Dylai cyfarfodydd y bwrdd ganolbwyntio ar allbynnau ac felly dylid eu cynnal pan fo angen, yn hytrach nag ar adegau a bennir ymlaen llaw yn ystod y flwyddyn.

Mae pob sefydliad yn cydnabod eu bod yn bwriadu ymddwyn yn unol â'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Gweithio gyda'n gilydd er mwyn ymddiried, cefnogi a pharchu'n gilydd, a phan gyfyd anawsterau neu wahaniaethau barn, sicrhau yr eir i'r afael â hwy'n gyflym, gonest ac agored.
- Mae'r arolwg Perfformiad ac Effeithlonrwydd yn rhaglen waith ar y cyd, a bydd WRAP a CLlCC yn ymgysylltu â'r Cyngor i deilwra'r rhaglen cymorth i gyd-fynd â gofynion deddfwriaethol, gwleidyddol ac economaidd y Cyngor.
- Bydd yr awdurdod yn gwneud pob ymdrech posibl i ddefnyddio'r cymorth yn amserol, wrth ofyn am gymorth ac wrth weithredu ar yr wybodaeth a ddarperir.
- Bydd pob sefydliad yn cyfathrebu â'i gilydd yn rheolaidd ar gynnydd y prosiect ac yn hysbysu ei gilydd ynglŷn ag unrhyw newidiadau perthnasol a all effeithio ar y ddarpariaeth neu'r defnydd a wneir o'r cymorth, neu'r canlyniadau y mae'r cymorth a ddarperir i fod i'w cyflawni.
- Bydd yr holl bartïon yn cydweithio er mwyn dod o hyd i ffyrdd o gyflawni amcanion y prosiect, fel y'i diffinnir gan y Bwrdd Rhaglen.

## ***Gweinyddiaeth y Bwrdd***

Oherwydd natur y prosiect a'r angen am dîm prosiect a Bwrdd Rhaglen sydd mor ymatebol â phosibl, dilynir y dull gweinyddol canlynol cyn belled ag y bo modd.

- Trefnir cyfarfodydd fel bo'r angen i gwrdd â gofynion y prosiect; fodd bynnag dim ond aelodau perthnasol o'r bwrdd fydd yn eu mynychu. Bydd rhaid i uwch reolwyr ac aelodau etholedig fynychu cyfarfodydd allweddol yn unig pan fydd angen gwneud penderfyniadau strategol, neu gyflwyno/trafod allbynnau'r prosiect. Felly bydd gan y bwrdd Grŵp Rhaglen a fydd yn cynnwys swyddogion CCC, ynghyd â CLlLC a WRAP,

a fydd yn ymgymryd â mwyafrif y gwaith ac a fydd yn adrodd yn ôl i'r bwrdd ar gerrig milltir allweddol.

- Bydd y Rheolwr/wyr prosiect yn anfon yr agenda wythnos ymlaen llaw cyn dyddiad y cyfarfod.
- Rhaid cyflwyno'r papurau i'r aelodau dim hwyrach na 2 ddiwrnod cyn y cyfarfod.
- Bydd y Rheolwr/wyr prosiect yn paratoi nodyn briffio a chamau gweithredu i'w cylchredeg a'u cadw mewn lle sy'n hygyrch i bawb.

## ***Cylch Gwaith y Bwrdd***

Mae cylch gwaith y bwrdd yn cynnwys:

- cymryd perchnogaeth dros a rheoli arolygiaeth y prosiect Perfformiad ac Effeithlonrwydd er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni ar amser ac oddi mewn i'r cylch gwaith.
- darparu penderfyniadau a gaiff eu huwchraddio ar y cyd i'r Bwrdd gan swyddogion/CLlLC/WRAP.
- sicrhau bod y prosiect yn cyflawni gofynion polisi'r Cyngor.
- sicrhau bod allbynnau'n dryloyw ac eglur.

## ***Cyfrifoldebau'r Bwrdd***

Dyma gydgyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd.

- Gwneud penderfyniadau allweddol ar gychwyn y prosiect ac wrth ei roi ar waith.
- Cytuno ar brotocol cyfathrebu i sicrhau bod y prosiect yn mynd rhagddo'n rhwydd.
- Gwneud penderfyniadau ar faterion i'w huwchgyfeirio i'r Rheolwr/wyr Prosiect.
- Clustnodi adnoddau digonol ar gyfer yr holl ffrydiau gwaith allweddol i gwrdd â'r amserlenni a nodir yng nghynllun y prosiect.
- Pennu pwerau dirprwyedig i Rheolwr/wyr Prosiect.
- Cymeradwyo'r Cynllun Prosiect Cyffredinol a'r cynlluniau ar gyfer ffrydiau gwaith unigol.
- Pennu'r lefel risg sy'n dderbyniadwy mewn perthynas â gweithgareddau'r prosiect. Monitro a lliniaru'r risgiau.
- Cymeradwyo cwblhad pob cam o'r prosiect a sicrhau bod y prosiect yn gweithredu'n briodol dan unrhyw bwerau dirprwyedig.
- Monitro cynnydd y prosiect.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **18 Hydref, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. Cefndir

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

### 2. Cyd-destun Lleol

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

## 3. Materion ar gyfer eu hystyried

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22

| |
|---|
| ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]<br>3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2020

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Ebrill, 2022**
**[Fersiwn ddyddiedig 11/10/21]**

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)-2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (18/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21) - gohirio** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 | |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Y Gymraeg:<br>• Strategaeth Iaith: 2021/26 – adolygiad<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Adroddiad Adolygu |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | Diweddariad – Er Gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu<br>• Adroddiad Cynnydd Ch2: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Her Tai Ymateb CSYM i'r sefyllfa Tai Lleol | |
| Cynllun Trosiannol (i'w gadarnhau) | |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol | |
| Cynllun Rheoli Asedau Mân-ddaliadau 2021/31 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Ionawr, 2022 (20/01/22)** | **Ionawr, 2022 (18/01/22)** |
| Strategaeth Dai Lleol 2022/27 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Diogelu Corfforaethol |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Chwefror, 2022 (09/02/22)** | **Chwefror, 2022 (08/02/22)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | Asesiad Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Mawrth, 2022 (07/03/22)** | **Mawrth, 2022 (08/03/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai (07/03/2022) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Ebrill, 2022 (11/04/22)** | **Ebrill, 2022 (13/04/22)** |
| | |
| | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| Cynlluniau Adfer (Covid-19) | Cynlluniau Adfer (Covid-19) |
| | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Cynllun Cyrchfan |
| | |

This page is intentionally left blank